

CYMHWYSOL



CBAC Lefel 3 Diploma Cymhwysol mewn  
**GWYDDOR BWYD  
A MAETH**

WEDI'I REOLEIDDIO GAN OFQUAL  
WEDI'I DDYNODI GAN CYMWYSTERAU CYMRU

# MANYLEB

Addysgu o 2015  
Dyfarnu o 2017

Fersiwn 2 Medi 2018



# CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Caniateir i ddysgwyr ailsefyll pob uned allanol <b>ddwywaith</b> .	5 a 12
	Ar gyfer asesu mewnol, cyfeiriwch at ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan reolaeth'.	7
	Eglurhad o reol 'llwyddo o ychydig'.	11
	Eglurhad o reolau ailsefyll.	64

# Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
<b>1. Cyflwyniad</b>	
<b>1.1 Teitl a chod y cymhwyster</b>	<b>2</b>
<b>1.2 Datganiad o Bwrpas</b>	<b>2</b>
<b>2. Strwythur y Cymhwyster</b>	<b>4</b>
<b>3. Asesu</b>	
<b>3.1 Asesiad allanol</b>	<b>5</b>
<b>3.2 Asesiad mewnol</b>	<b>7</b>
<b>3.3 Asesiad synoptig</b>	<b>10</b>
<b>3.4 Safoni</b>	<b>10</b>
<b>4. Graddio</b>	<b>11</b>
<b>5. Unedau</b>	<b>14</b>
<b>6. Gweithdrefnau Cofrestru</b>	<b>64</b>
<b>7. Safoni Allanol</b>	<b>65</b>
<b>8. Dyfarnu a Chyflwyno Adroddiadau</b>	<b>67</b>
<b>9. Mynediad ac Ystyriaeth Arbennig</b>	<b>68</b>
<b>10. Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau</b>	<b>69</b>
<b>11. Codau Dosbarthu</b>	<b>70</b>
<b>Atodiad</b>	
<b>1. Strwythur yr Unedau</b>	<b>71</b>

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Teitl a chod y cymhwyster

Mae'r fanyleb hon yn ymdrin â'r cymwysterau canlynol:

601/4552/3 CBAC Diploma Cymhwysol Lefel 3 mewn Gwyddor Bwyd a Maeth

## 1.2 Datganiad o Bwrpas

Mae dealltwriaeth o wyddor bwyd a Maeth yn berthnasol i lawer o ddiwydiannau a rolau swydd. Mae darparwyr gofal a maethgwyr mewn ysbytai yn defnyddio'r wybodaeth hon, fel y gwna hyfforddwy a chyfarwyddwy ffitrwydd. Mae gwestai a thai bwyta, gweithgynhyrchwyr bwyd ac asiantaethau llywodraeth hefyd yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i ddatblygu bwydlenni, cynhyrchion bwyd a pholisïau sy'n cefnogi mentrau bwyta'n iach. Mae llawer o gyfleoedd cyflogaeth ym maes gwyddor bwyd a maeth ar gael i raddedigion.

Mae'n gymhwyster Cyffredinol Cymhwysol. Mae hyn yn golygu ei fod wedi'i gynllunio'n bennaf i helpu dysgwyr sy'n symud ymlaen i'r brifysgol. Fe'i cynlluniwyd i gynig profiadau cyffrous a diddorol sy'n rhoi ffocws i'r dysgu i ddysgwyr rhwng 16 a 19 oed drwy ddysgu cymhwysol, h.y. drwy feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn cyd-destunau pwrpasol sy'n ymwneud â gwaith, wedi'u cysylltu â'r diwydiant cynhyrchu bwyd.

Dangosir strwythur y cymhwyster yma.

CBAC Diploma Cymhwysol Lefel 3 mewn Gwyddor Bwyd a Maeth			
Rhif yr Uned	Teitl yr Uned	Strwythur	Asesu
1	Diwallu Anghenion Maethol Grwpiau Penodol	Gorfodol	Mewnol ac Allanol
2	Sicrhau bod Bwyd yn Ddiogel i'w Fwyta	Gorfodol	Allanol
3	Arbrofi er mwyn Datrys Problemau Cynhyrchu Bwyd	Dewisol	Mewnol
4	Materion Cyfredol o ran Gwyddor Bwyd a Maeth	Dewisol	Mewnol

### Bydd dysgwyr yn cwblhau tair uned: dwy orfodol ac un ddewisol.

Bydd yr uned orfodol gyntaf yn galluogi'r dysgwr i arddangos dealltwriaeth o wyddor diogelwch bwyd, maeth ac anghenion maethol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau, a thrwy sesiynau ymarferol parhaus, i feithrin sgiliau ymarferol i gynhyrchu eitemau bwyd o safon i ddiwallu anghenion unigolion.

Bydd yr ail uned orfodol yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o wyddor diogelwch bwyd a hylendid; gwybodaeth hanfodol i unrhyw un sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd yn y cartref neu sydd am weithio yn y diwydiant bwyd. Unwaith eto, bydd sesiynau ymarferol yn helpu i feithrin gwybodaeth ddamcaniaethol ac yn sicrhau bod y dysgu'n brofiad cyffyrddol.

Bydd astudio un o'r ddwy uned ddewisol yn rhoi cyfle i'r dysgwyr astudio pynciau sydd o ddiddordeb neu berthnasedd arbennig iddynt hwy, gan adeiladu ar ddysgu a phrofiadau blaenorol.

Mae gan bob uned o fewn y cymhwyster bwrpas cymhwysol sy'n gweithredu fel ffocws ar gyfer y dysgu a wneir fel rhan o'r uned. Mae'r pwrpas cymhwysol yn galw am ddysgu dilys sy'n gysylltiedig â gwaith ym mhob un o'r unedau sydd ar gael. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwyr ystyried sut mae'r modd y defnyddir ac y cynhwysir eu dysgu yn effeithio arnynt hwy eu hunain, unigolion eraill, cyflogwyr, cymdeithas a'r amgylchedd. Bydd y pwrpas cymhwysol hefyd yn galluogi dysgwyr i ddysgu mewn ffordd sy'n datblygu'r canlynol:

- y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer dysgu a datblygu annibynnol
- y sgiliau i sicrhau eu hiechyd a'u lles deietegol eu hunain
- amrywiaeth o sgiliau generig a throsglwyddadwy
- y gallu i ddatrys problemau
- sgiliau ymchwilio, datblygu a chyflwyno sy'n seiliedig ar broiectau
- y gallu i gymhwyso sgiliau mathemategol a TGCh
- y gallu sylfaenol i gydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill, mewn amgylchedd proffesiynol
- y gallu i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn cyd-destunau galwedigaethol.

Byddai'r amrywiaeth o unedau sydd ar gael yn helpu dysgwyr i ddatblygu o'u hastudiaethau ar Lefel 2, ond yn enwedig cymwysterau TGAU mewn Lletygarwch ac Arlwyyo, Economeg y Cartref: bwyd a maeth, Bioleg, Addysg Gorrfforol, y Dyniaethau a Dylunio a Thechnoleg.

Ynghyd â chymwysterau perthnasol eraill ar Lefel 3, fel UG a Safon uwch mewn Bioleg, Cemeg, Cymdeithaseg a Mathemateg a/neu gymwysterau Lefel 3 mewn Lletygarwch neu Wyddoniaeth, bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth angenrheidiol er mwyn gallu defnyddio'r cymhwyster i'w helpu i gael mynediad i gyrсияu addysg uwch fel:

- BSc Bwyd a Maeth
- BSc Maeth Ddynol
- BSc (Anrh) Maeth Iechyd y Cyhoedd
- BSc (Anrh) Gwyddor Bwyd a Thechnoleg

Yn ogystal â'r cymhwyster hwn, mae CBAC hefyd yn cynnig Tystysgrif Lefel 3 mewn Gwyddor Bwyd a Maeth. Mae hwn yn gymhwyster llai gydag un uned fel y dangosir yn y tabl strwythur:

<b>CBAC Diploma Cymhwysol Lefel 3 mewn Gwyddor Bwyd a Maeth</b>			
<b>Rhif yr Uned</b>	<b>Teitl yr Uned</b>	<b>Strwythur</b>	<b>Asesu</b>
1	Diwallu Anghenion Maethol Grwpiau Penodol	Gorfodol	Mewnol ac Allanol

Byddai'r cymhwyster maint Tystysgrif hwn yn ategu dysgu sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol neu chwaraeon, lle y byddai dealltwriaeth o faetheg a deietau yn ddefnyddiol i reolwyr gofal a chyfarwyddwyr ffitrwydd chwaraeon. Byddai hefyd yn berthnasol i'r dysgwyr hynny heb unrhyw brofiad blaenorol o'r cynnwys o'i gymhwyso at gyd-destun galwedigaethol. Fel y cyfryw, gall dysgwyr benderfynu parhau i astudio'r pwnc drwy Ddiploma Lefel 3 mewn Gwyddor Bwyd a Maeth.

## 2 STRWYTHUR Y CYMHWYSTER

### CBAC Diploma Cymhwysol Lefel 3 mewn Gwyddor Bwyd a Maeth

CBAC Diploma Cymhwysol Lefel 3 mewn Gwyddor Bwyd a Maeth					
Rhif yr Uned	Codau Cofrestru	Teitl yr Uned	Strwythur	Asesu	Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA)
1	Mewnol: 4563UA* 4563NA* Allanol: 4563UB* 4563NB*	Diwallu Anghenion Maethol Grwpiau Penodol	Gorfodol	Mewnol ac Allanol	180
2	4563U2* 4563N2*	Sicrhau bod Bwyd yn Ddiogel i'w Fwyta	Gorfodol	Allanol	90
3	4563U3* 4563N3*	Arbrofi er mwyn Datrys Problemau Cynhyrchu Bwyd	Dewisol	Mewnol	90
4	4563U4* 4563N4*	Materion Cyfredol o ran Gwyddor Bwyd a Maeth	Dewisol	Mewnol	90
Cash-in Diploma	4563QD* 4563CD*				

\* Ysgol cyfrwng Saesneg UA, UB, U2, U3, U4 and QD

\* Ysgol cyfrwng Gymraeg NA, NB, N2, N3, N4 and CD

# 3 ASESU

Caiff Diploma Cymhwysol Lefel 3 CBAC mewn Gwyddor Bwyd a Maeth ei asesu gan ddefnyddio cyfuniad o asesiadau mewnol ac allanol.

## 3.1 Asesiad allanol

**Uned 1:** Caiff y broses o **ddiwallu Anghenion Maethol Grwpiau Penodol** ei hasesu'n fewnol ac yn allanol. Ceir manylion am asesu'n fewnol yn adran 3.2. Ceir manylion am sut y caiff yr uned ei graddio yn adran 4.

Mae manylion yr asesiad allanol fel a ganlyn:

- Arholiad 90 munud; ynghyd â 15 munud o amser darllen
- Cyfanswm o 90 o farciau
- Tair adran ar bob papur
  - Adran A - cwestiynau atebion byr
  - Adran B - cwestiynau atebion estynedig
  - Mae Adran C yn ymwneud ag astudiaeth achos
- Bydd pob papur ar gael ym mis Mehefin bob blwyddyn
- Caniateir i ddysgwyr ailsefyll pob uned allanol ddwywaith. Bydd y radd uchaf yn cyfrannu at y radd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster
- bydd CBAC yn llunio cynllun marcio a ddefnyddir fel y sail ar gyfer marcio'r papurau arholiad
- Rhoddir gradd Llwyddiant Lefel 3, Teilyngdod Lefel 3 a Rhagoriaeth Lefel 3. Gweler adran 4 am fanylion pellach
- Caiff DD1, DD2, DD3 a DD4 eu hasesu ar bob cyfle asesu. Caiff Meini Prawf Asesu eu samplu o fewn pob asesiad o fewn y dyraniad marciau isod:

### Grid Asesu

Deilliannau Dysgu	Meini Prawf Asesu	Marciau	%
DD1 Deall pwysigrwydd diogelwch bwyd	<b>MPA1.1</b> Esbonio sut y gall unigolion gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch bwyd	14-22	15-25%
	<b>MPA1.2</b> Esbonio'r dulliau a ddefnyddir gan y sawl sy'n trin bwyd i gadw eu hunain yn lân ac yn hylan		
	<b>MPA1.3</b> esbonio'r dulliau a ddefnyddir i gadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn hylan		
	<b>MPA1.4</b> Dadansoddi risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd		

Deilliannau Dysgu	Meini Prawf Asesu	Marciau	%
DD2 Deall priodweddau maetholion	MPA2.1 Esbonio strwythur maetholion	14-22	15-25%
	MPA2.2 Dosbarthu maetholion mewn bwydydd		
	MPA2.3 Asesu effaith <b>dulliau o gynhyrchu bwyd</b> ar werth maethol		
DD3 Deall y gyberthynas rhwng maetholion a'r corff dynol	MPA3.1 Disgrifio swyddogaethau maetholion yn y corff dynol	22-31	25-35%
	MPA3.2 Esbonio priodweddau cymeriant maethol anfoddhaol		
	MPA3.3 Dadansoddi anghenion maethol grwpiau penodol		
	MPA3.4 Asesu sut mae gwahanol sefyllfaoedd yn effeithio ar anghenion maethol		
DD4 Gallu cynllunio gofynion maethol	MPA4.1 <b>Gwerthuso addasrwydd at bwrpas deietau</b>	22-31	25-35%
	MPA4.2 Cyfrifo gofynion maethol unigolion penodol		
<b>CYFANSWM</b>		<b>90</b>	<b>100%</b>

Caiff **Uned 2 Sicrhau bod Bwyd yn Ddiogel i'w Fwyta** ei hasesu'n allanol. Mae manylion yr asesiad allanol fel a ganlyn:

- Caiff aseiniad ei lunio bob blwyddyn academiaidd ac ni ellir ei agor cyn Mai 1<sup>af</sup> bob blwyddyn
- Mae'n asesiad **wyth** awr o hyd sy'n cael ei amseru a'i oruchwyllo
- Ni chaniateir i ddysgwyr gydweithio yn ystod yr adegau pan fyddant yn gweithio ar dasgau asesu
- Bydd yr aseiniad sy'n cael ei bennu'n allanol yn nodi'r adnoddau y mae'n rhaid eu darparu i bob dysgwr
- Mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad o fewn tair wythnos i'r dyddiad y caiff ei agor gan y ganolfan
- Mae'n rhaid i ganolfannau sicrhau, pan fydd dysgwyr yn cwblhau'r asesiad allanol mewn mwy nag un sesiwn, fod prosesau ar waith i sicrhau na allant gael gafael ar eu tystiolaeth rhwng y sesiynau hynny
- Rhaid cofnodi pob sesiwn. Darperir taflen amser gan CBAC at y pwrpas hwn.
- Bydd pob asesiad yn ymdrin â'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Bydd yn nodi pa feini prawf asesu sy'n cael eu targedu ar gyfer yr asesiad
- Bydd pob asesiad allanol yn gofyn i'r dysgwr ddod â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddysgwyd drwy gydol yr uned ynghyd, gan wneud cysylltiadau rhyngddynt, a'u cymhwyso drwy ymateb i'r wybodaeth a ddarperir mewn senario. Bydd y senario yn ymwneud â sefyllfa diogelwch bwyd. Bydd yn gofyn i ddysgwyr ddadansoddi'r wybodaeth a llunio barn am y risg bosibl i ddiogelwch bwyd.
- Bydd CBAC yn llunio cynllun marcio a ddefnyddir gan arholwyr CBAC fel sail ar gyfer marcio'r asesiad allanol
- Rhoddir gradd Llwyddiant Lefel 3, Teilyngdod Lefel 3 a Rhagoriaeth Lefel 3 i'r asesiad
- Mae'n rhaid dogfennu'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo ac amseru'r unedau sy'n cael eu hasesu'n allanol yn llawn yn unol â gofynion CBAC.



## 3.2 Asesiad mewnol

Caiff yr unedau canlynol eu hasesu'n fewnol:

- **Uned 1: Diwallu Anghenion Maethol Grwpiau Penodol.** Caiff yr uned hon ei hasesu'n allanol hefyd. Ceir manylion am asesu'n allanol yn adran 3.1 Ceir manylion am raddau'r uned yn adran 4.
- **Uned 3: Arbrofi er mwyn Datrys Problemau Cynhyrchu Bwyd**
- **Uned 4: Materion cyfredol o ran Gwyddor Bwyd a Maeth**

Ar gyfer asesu mewnol, cyfeiriwch at ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan reolaeth' CBAC. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan CBAC ([www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)). Mae'n rhaid i bob canolfan sicrhau bod asesiadau mewnol yn cael eu cynnal yn unol â'r rheolaethau hyn.

Mae'r egwyddorion canlynol yn gymwys i'r gwaith o asesu pob uned sy'n cael ei hasesu'n fewnol:

- Caiff unedau eu hasesu drwy asesiadau crynodol dan reolaeth
- Darperir rheolaethau ar gyfer asesu pob uned sy'n cael ei hasesu'n fewnol mewn aseiniad enghreifftiol
- Rhaid i bob uned sy'n cael ei hasesu'n fewnol gael ei hasesu'n annibynnol. Gall dysgwyr gyflwyno darn o dystiolaeth sy'n cyfrannu at y meini prawf asesu ar gyfer mwy nag un uned. Mae hyn yn dderbyniol ar yr amod y gellir priodoli'r dystiolaeth yn glir i faen prawf asesu penodol a'i bod wedi cael ei chyflwyno dan yr amodau rheolaeth priodol ar gyfer pob uned
- Darperir bandiau perfformiad ar gyfer Llwyddiant Lefel 3, Teilyngdod Lefel 3 a Rhagoriaeth Lefel 3. Mae'n rhaid i dystiolaeth ddangos yn glir sut mae'r dysgwr wedi cyrraedd y safon ar gyfer y graddau uwch.

Mae tri cham asesu sy'n cael eu rheoli:

- Pennu tasgau
- Cyflawni tasgau
- Marcio tasgau.

### Pennu tasgau

Ar gyfer asesiadau mewnol, mae CBAC wedi llunio aseiniadau enghreifftiol ar gyfer pob uned. Fodd bynnag, gall canolfannau addasu'r aseiniad o fewn paramedrau penodedig. Bydd hyn yn galluogi canolfannau i addasu'r asesiad yn unol ag anghenion lleol. Lluniwyd yr aseiniad enghreifftiol hwn er mwyn sicrhau bod y rheolaethau canlynol ar waith:

- Defnyddir un aseiniad i asesu pob uned
- Rhaid bod gan bob aseiniad friff sy'n nodi pwrpas cymhwysol. Rheswm dros gwblhau'r tasgau a fyddai o fudd i gymdeithas, cymuned, sefydliad neu gwmni yw pwrpas cymhwysol. Ceir manylion pellach yn y Datganiad o Bwrpas yn Adran 1.2
- Gall yr aseiniad ddynodi nifer o dasgau ond rhaid iddynt fod yn gydlynol, h.y. dangos sut mae gofynion yr asesiad i gyd yn cyfrannu at gyflawni pwrpas cymhwysol yr aseiniad
- Rhaid i'r aseiniad roi'r cyfle i bob dysgwr fynd i'r afael â phob maen prawf asesu a holl ofynion y bandiau perfformiad
- Rhaid i'r aseiniad nodi pa fathau o dystiolaeth sy'n dderbyniol. Mae'n rhaid i'r rhain gydymffurfio â'r mathau hynny a nodir yn yr aseiniad enghreifftiol
- Lle mae canolfan wedi addasu'r aseiniad enghreifftiol, rhaid dangos dystiolaeth o waith i sicrhau ei fod yn addas at y pwrpas. Mae dogfennau enghreifftiol ar gyfer y gweithgaredd hwn ar gael gan CBAC.

## Cyflawni tasgau

Mae pum agwedd ar gyflawni tasgau sy'n cael eu rheoli: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, cydweithio ac ailgyflwyno.

### Amser

Bydd pob aseiniad enghreifftiol yn dynodi cyfanswm yr amser sydd ar gael ar gyfer yr asesiad crynodol. Gall canolfannau neilltuo'r amser hwnnw i bob tasg yn ôl eu disgrisiwn.

### Adnoddau

Gall yr aseswr benderfynu pa adnoddau y dylid eu rhoi i bob dysgwr er mwyn sicrhau y cynhelir asesiad teg a dilys. Lle y mae'n rhaid rhoi rheolaethau penodol ar waith o ran adnoddau, fe'u nodir yn yr aseiniad enghreifftiol.

### Goruchwyliaeth

Fel arfer, mae'n rhaid i ddysgwyr gael eu goruchwyllo gan aseswr wrth iddynt gwblhau tasgau dan reolaeth ar gyfer yr aseiniad. Bydd aseiniadau enghreifftiol yn dynodi lle nad oes angen goruchwyliaeth. Mae'n rhaid i ganolfannau roi systemau ar waith er mwyn sicrhau na all dysgwyr ddefnyddio tystiolaeth y maent wedi bod yn ei datblygu y tu allan i weithgareddau a oruchwylir.

### Dilysu

Mae trefniadau goruchwyllo ar waith er mwyn sicrhau dilysrwydd y dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer asesiad crynodol. Ni ddylai aseswyr ddarparu mewnbwn nac arweiniad i ddysgwyr yn ystod amser yr asesiad dan reolaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi adborth ffurfiannol ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno. Gall aseswyr ddarparu arweiniad ar ofynion y dasg ac atgoffa dysgwyr am y bandiau perfformiad a sut y gellir eu dehongli. Mae'n rhaid i aseswyr ymyrryd os gwelir bod risg i iechyd a diogelwch.

Gall dysgwyr adolygu ac ailddrafftio tystiolaeth yn annibynnol o fewn y rheolaethau amser ar gyfer yr asesiad.

Mae'n rhaid i ddysgwyr lofnodi datganiad i gadarnhau mai eu gwaith hwy yw'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'w safoni a bod unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd wedi'u cydnabod.

Mae'n rhaid i aseswyr lofnodi datganiad i gadarnhau bod y dystiolaeth a gyflwynwyd i'w safoni wedi'i chwblhau dan reolaeth fel y nodir yn yr aseiniadau enghreifftiol.

### Cydweithio

Bydd yr aseiniad enghreifftiol yn nodi'r canlynol:

- A oes rhaid ymgymryd â gwaith grŵp;
- A yw gwaith grŵp wedi'i wahardd;
- A all canolfannau ddewis cwblhau tasgau drwy waith grŵp.

Lle yr ymgwymerir â gwaith grŵp, mae'n rhaid ystyried yr egwyddorion canlynol:

- Dylai tasgau roi cyfle i bob aelod o'r grŵp gael mynediad llawn i'r holl fandiau perfformiad ar gyfer yr holl feini prawf asesu
- Mae'n **rhaid** i ddysgwyr ddarparu ymateb unigol fel rhan o unrhyw ganlyniad sy'n deillio o'r dasg
- Gall tystiolaeth o ymateb unigol gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig (e.e. nodiadau, gwerthusiadau, mapiau meddwl ac ati) a/neu dystiolaeth glywedol (e.e. recordiadau, ffotograffau, darluniau, dyluniadau ac ati.)
- Mae'n rhaid sicrhau y gellir priodoli'r dystiolaeth yn glir i bob aelod unigol o'r grŵp;
- Mae'n rhaid nodi cyfraniadau unigol yn glir a'u datgan ar y daflen ddilysu atodol y mae'n rhaid i'r athro a'r ymgeisydd ei llofnodi
- Rhaid asesu'r unigolyn ar sail ei gyfraniad unigol at y dystiolaeth a gyflwynwyd;
- Ni ddylai perfformiad gwael aelodau eraill o'r grŵp effeithio ar gyflawniad dysgwyr
- Ni ddylai dysgwyr elwa ar berfformiad aelodau eraill o'r grŵp.

### Ailgyflwyno

Gall dysgwyr ailymgeisio am unedau sy'n cael eu hasesu'n fewnol. Mae'n rhaid i'r dysgwr gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni all wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Caiff dysgwyr un cyfle i ailsefyll ar gyfer pob uned a asesir.

Lle y bydd dysgwr unigol sydd wedi cyflwyno gwaith grŵp i'w asesu yn flaenorol yn awyddus i ailsefyll uned sy'n cael ei hasesu'n fewnol, mae'n **rhaid** dewis un o'r opsiynau canlynol:

- rhaid i'r ymgeisydd greu darn newydd o waith o fewn yr un grŵp
- rhaid i'r ymgeisydd greu darn newydd o waith o fewn grŵp newydd
- rhaid i'r ymgeisydd greu darn newydd o waith gydag ymgeiswyr nad ydynt yn cael eu hasesu
- rhaid i'r ymgeisydd greu darn unigol o waith.

Bydd yr un lefelau o reolaeth ar gyfer gwaith grŵp, fel yr amlinellir uchod, yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n dewis ailsefyll.

### Marcio tasgau

Mae'n rhaid marcio'r holl dystiolaeth yn erbyn y meini prawf asesu a'r datganiadau bandiau perfformiad a nodir ym manyleb pob uned. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth sy'n cael ei marcio gydymffurfio â'r gofynion dan reolaeth a nodir yn yr aseiniad enghreifftiol.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n berthnasol i'r meini prawf asesu a gofynion y bandiau perfformiad.

Rhaid i dystiolaeth o berfformiad, er enghraifft gwneud cyflwyniad, gael ei nodi ar gofnodion arsylwi. Bydd cofnodion arsylwi yn cynnwys disgrifiad o berfformiad y dysgwr yn ogystal â datganiad crynodol ar ansawdd y perfformiad hwnnw. Os caiff perfformiad ei arsylwi gan rywun heblaw am aseswr, mae'n rhaid i'r 'tyst' gwblhau datganiad tyst. Bydd angen i aseswyr ddilysu'r datganiad drwy graffu ar dystiolaeth ategol a/neu holi'r dysgwr a/neu'r tyst. Os caiff y datganiad ei ddilysu, gellir caniatáu iddo gyfrannu at y dystiolaeth sydd i'w hasesu. Bydd angen cynnwys tystiolaeth o'r gwaith dilysu hefyd.

Dim ond aseswr dynodedig a ddylai farcio tasgau. Dylai fod gan asesydd yr arbenigedd priodol yn y pwnc a'r lefel ar gyfer uned benodol. Mae'r aseswr yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- Cynhelir yr asesiad o dan yr amodau rheolaeth a nodir
- Ei fod yn gwybod gofynion y deilliannau dysgu, y meini prawf asesu a'r datganiadau am fandiau perfformiad yn glir cyn dechrau cynnal asesiad dan reolaeth
- Mae'r dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu yn ddilys
- Mae penderfyniadau asesu yn cael eu cofnodi'n gywir
- Mae'r dystiolaeth wedi'i hanodi'n briodol
- Mae cofnodion arsylwi yn cynnwys digon o wybodaeth i sicrhau bod modd cadarnhau penderfyniadau yn wrthrychol
- Dim ond yn erbyn y datganiadau bandiau perfformiad y llunnir barn.

### 3.3 Asesiad synoptig

Asesiad synoptig yw:

*'assessment which requires a candidate to identify and use effectively in an integrated way an appropriate selection of skills, techniques, concepts, theories, and knowledge from across the course content'*

'Level 3 Vocational Qualifications for 16 -19 year olds and Performance Tables: Technical Guidance for Awarding Organisations' Yr Adran Addysg tud 14

Cynlluniwyd pob uned yn Niploma Lefel 3 CBAC mewn Gwyddor Bwyd a Maeth i'w gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu'r hyn y maent yn ei ddysgu drwy weithio tuag at dasgau pwrpasol sy'n gysylltiedig â gwaith. Bydd dysgwyr yn dewis ac yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd ganddynt wrth gwblhau'r tasgau hyn.

Mae Unedau 1 a 2 yn orfodol ac yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth graidd eang. Rhaid i ddysgwyr ddewis naill ai Uned 3 neu Uned 4. Mae'r ddwy uned hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwr fanteisio ar y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a gafodd eu meithrin yn Unedau 1 a 2 i gwblhau'r gofynion asesu. Mae adran 'ymhelaethu' cynnwys yr uned yn Unedau 3 a 4 yn nodi ble y gall dysgwyr ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt mewn unedau eraill. Mae'r radd y bydd dysgwyr yn ei chael ar gyfer yr uned hon yn dibynnu ar eu defnydd o'r hyn a ddysgwyd ganddynt mewn unedau eraill.

### 3.4 Safoni

Disgwylir i ganolfannau safoni penderfyniadau asesu mewnol. Dyma'r broses a ddefnyddir gan ganolfannau er mwyn sicrhau y caiff pob dysgwr ei farnu yn ôl yr un safon ar draws gwahanol aseswyr, grwpiau addysgu ac o flwyddyn i flwyddyn. Dylid cyflwyno tystiolaeth o weithgareddau safoni gyda thystiolaeth y dysgwyr.

Lle y bydd mwy nag un aseswr yn ymwneud â'r broses, rhaid i'r ganolfan benodi Aseswr Arweiniol. Rôl yr Aseswr Arweiniol yw:

- dogfennu pob gweithgaredd
- sicrhau bod yr aseiniad a gyflwynir i ddysgwyr yn addas at y pwrpas a'i fod yn cydymffurfio â'r holl reolaethau
- sicrhau bod gan bob aseswr ddogfennaeth briodol i ategu penderfyniadau asesu teg a dilys
- sicrhau bod pob gweithgaredd asesu yn cyd-fynd â'r rheolaethau cyflawni tasgau ar gyfer yr uned
- barn asesu enghreifftiol ar adegau priodol er mwyn sicrhau bod y bandiau perfformiad yn cael eu cymhwyso'n gywir ac yn gyson
- rhoi adborth i'r aseswyr
- rhoi cymorth i'r aseswyr o ran dehongli gofynion bandiau perfformiad.

## 4 GRADDIO

Mae cyflawni'r uned yn seiliedig ar allu dysgwr i fodloni'r meini prawf asesu. Gellir dyfarnu gradd grynodol Llwyddiant Lefel 3, Teilyngdod Lefel 3 neu Ragoriaeth Lefel 3 am unedau.

### **Unedau sy'n Cael eu Hasesu'n Fewnol**

Ysgrifennwyd y bandiau perfformiad i alluogi dysgwyr i ddangos eu gallu yn erbyn y meini prawf asesu. Nid oes gofynion ychwanegol i gyflawni marciau uwch. Dyrennir amrediad o farciau ar gyfer pob band perfformiad. Bydd aseswyr yn dewis y band perfformiad 'ffit orau' ar gyfer y dystiolaeth a gyflwynwyd ac yn dyfarnu'r marc perthnasol. Cyflwynir cyfanswm yr holl farciau a ddyrannwyd i CBAC.

Cyflwynwyd rheol 'llwyddo o ychydig' ar gyfer pob uned allanol. Bydd ymgeisydd yn cyflawni gradd llwyddiant (neu uwch) os yw'n cwrdd â'r ddau ofyniad canlynol:

- i) Cyflawni'r cyfanswm GMU sy'n ofynnol ar y radd berthnasol ar gyfer y cymhwyster
- ii) Cael o leiaf y GMU lleiaf ar gyfer yr unedau allanol perthnasol

### **Unedau sy'n Cael eu Hasesu'n Allanol**

Caiff pob asesiad allanol ei farcio yn ôl y manylion a ddarparwyd mewn cynllun marcio.

### **Graddau**

Cynhelir cyfarfod Dyfarnu bob blwyddyn i bennu ffiniau'r graddau. Bydd pwyllgor dyfarnu profiadol yn mynychu'r cyfarfod Dyfarnu ac yn cyfeirio at amrywiaeth o wybodaeth i bennu ffiniau graddau ar gyfer pob uned. Ceir manylion pellach am ddisgrifyddion graddau yn adran 4.3. Pan fydd ffiniau graddau wedi'u pennu gan CBAC, caiff marciau'r dysgwyr eu troi'n farciau y Raddfa Marciau Unffurf (UMS).

Y ffiniau graddau/UMS cyfatebol ar gyfer Diploma Lefel 3 CBAC mewn Gwyddor Bwyd a Maeth yw:

Rhif yr Uned	Teitl yr Uned	Asesu	Cyfanswm y marciau ar y Raddfa Marciau Unffurf	Ffiniau graddau UMS			
				D	M	P	N
1	Diwallu Anghenion Maethol Grwpiau Penodol	Mewnol	100	80	60	40	
		Allanol	100	80	60	40	30
2	Sicrhau bod Bwyd yn Ddiogel i'w Fwyta	Allanol	100	80	60	40	30
3	Arbrofi er mwyn Datrys Problemau Cynhyrchu Bwyd	Mewnol	100	80	60	40	
4	Materion Cyfredol o ran Gwyddor Bwyd a Maeth	Mewnol	100	80	60	40	

## Graddio'r cymhwyster

Cofnodir Diploma Lefel 3 CBAC mewn Gwyddor Bwyd a Maeth ar raddfa pedwar pwynt: Llwyddiant, Teilyngdod, Rhagoriaeth a Rhagoriaeth\*.

Bydd cyrhaeddiad dysgwyr nad ydynt yn cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer gradd llwyddiant yn cael gradd U (annosbarthedig) ac ni chânt dystysgrif cymhwyster.

Caniateir i ddysgwyr ailsefyll pob uned allanol ddwywaith. Dim ond unwaith y gall dysgwyr ailsefyll pob uned mewnol. Y canlyniad gorau fydd yn cyfrif, cyn cyfuno'r marciau ar gyfer dyfarniad y cymhwyster. Gall dysgwr ailsefyll y cymhwyster cyfan fwy nag unwaith.

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y marc UMS cyffredinol a chyflawniadau'r dysgwr ym mhob un o'r unedau.

Er mwyn cael gradd Llwyddiant, Teilyngdod, Rhagoriaeth neu Ragoriaeth\*, rhaid i ddysgwyr gael:

- yr isafswm marc UMS ar gyfer gradd y cymhwyster

**a**

- gradd llwyddiant o leiaf ym **MHOB** uned.

Y graddau cyfatebol ar gyfer Diploma Lefel 3 CBAC mewn Gwyddor Bwyd a Maeth yw:

Gradd	Rhagoriaeth*	Rhagoriaeth	Teilyngdod	Llwyddiant	Uchafswm
UMS	360	320	240	160	400

## Disgrifyddion gradd

Mae disgrifyddion gradd yn rhoi syniad cyffredinol o'r safonau cyflawni y mae'r dysgwyr y dyfarnwyd graddau penodol iddynt yn debygol o fod wedi'u dangos. Mae'n rhaid dehongli'r disgrifyddion mewn perthynas â'r cynnwys a bennir gan yr uned; ni fwriedir iddynt ddiffinio'r cynnwys hwnnw. Bydd y radd a ddyfernir yn dibynnu'n ymarferol ar y graddau y bydd yr ymgeisydd wedi bodloni'r disgrifyddion hyn yn gyffredinol. Gall diffygion mewn rhai agweddau ar yr arholiad gael eu cydbwysu gan berfformiad gwell mewn agweddau eraill.

Caiff y ffiniau graddau canlynol eu pennu mewn cyfarfod Dyfarnu:

- Rhagoriaeth/Teilyngdod
- Teilyngdod/Llwyddiant
- Llwyddiant/Heb radd

Y disgrifyddion a ddangosir yw'r rhai sy'n cyfateb i'r perfformiad trothwy ar bob gradd a ddyfernir.

### Llwyddiant Lefel 3

Bydd dysgwyr wedi meithrin dealltwriaeth sylfaenol o wyddor bwyd a maeth ac effaith bwyd a maeth ar fywydau unigolion ac ar gymdeithas heddiw. Byddant wedi meithrin dealltwriaeth sylfaenol o sut i nodi peryglon a lleihau risgiau wrth gynhyrchu bwyd er mwyn diwallu anghenion maethol grwpiau penodol. Maent yn arddangos rhywfaint o wybodaeth am briodweddau gwahanol maetholion, sut mae'r corff yn prosesu maetholion a sut mae anghenion maethol yn newid dros amser. Gallant ddefnyddio eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth i gynllunio prydau a chynlluniau deietegol i ddiwallu anghenion maethol unigolion penodol. Gall dysgwyr gyflawni tasgau ymarferol (gan gynnwys gwaith arbrofol), dadansoddi canlyniadau a dod i gasgliadau sylfaenol o'u canfyddiadau. Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio nifer o sgiliau cyffredinol e.e. ymchwil, dadansoddi, cynllunio a gwerthuso yn weddol annibynnol, er mwyn mynd i'r afael â senarios diogelwch bwyd mewn amrywiaeth o amgylcheddau, a/neu i lunio project ymchwil ar bwnc o'u dewis o fewn gwyddor bwyd a maeth. Bydd dysgwyr yn gallu nodi a throsglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o un dasg i'r llall, gan ddefnyddio dysgu mewn ffordd integredig a synoptig.

### Teilyngdod Lefel 3

Mae dysgwyr wedi meithrin dealltwriaeth dda o wyddor bwyd a maeth ac effaith bwyd a maeth ar fywydau unigolion ac ar gymdeithas heddiw. Byddant wedi meithrin dealltwriaeth glir o sut i nodi peryglon a lleihau risgiau wrth gynhyrchu bwyd er mwyn diwallu anghenion maethol grwpiau penodol. Maent yn arddangos gwybodaeth dda am briodweddau gwahanol maetholion, sut mae'r corff yn prosesu maetholion a sut mae anghenion maethol yn newid dros amser. Gallant ddefnyddio eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth i gynllunio seigiau a chynlluniau deietegol yn gywir i ddiwallu anghenion maethol unigolion penodol. Gall dysgwyr gyflawni tasgau ymarferol (gan gynnwys gwaith arbrofol) yn hawdd a gallant ddadansoddi canlyniadau a dod i gasgliadau sylfaenol o'u canfyddiadau. Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio nifer o sgiliau cyffredinol yn fedrus e.e. ymchwil, dadansoddi, cynllunio a gwerthuso, er mwyn mynd i'r afael â senarios diogelwch bwyd mewn amrywiaeth o amgylcheddau, a/neu i lunio project ymchwil da ar bwnc o'u dewis o fewn gwyddor bwyd a maeth. Bydd dysgwyr yn gallu nodi a throsglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o un dasg i'r llall yn gywir, gan arddangos yn glir sut i ddefnyddio dysgu mewn ffordd integredig a synoptig.

### Rhagoriaeth Lefel 3

Mae dysgwyr wedi meithrin dealltwriaeth drwyadl o wyddor bwyd a maeth ac effaith bwyd a maeth ar fywydau unigolion ac ar gymdeithas heddiw. Byddant wedi meithrin dealltwriaeth gadarn o sut i nodi peryglon a lleihau risgiau wrth gynhyrchu bwyd er mwyn diwallu anghenion maethol grwpiau penodol. Maent yn arddangos gwybodaeth fanwl am briodweddau gwahanol maetholion, sut mae'r corff yn prosesu maetholion a sut mae anghenion maethol yn newid dros amser. Gallant ddefnyddio eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth i gynllunio seigiau cymhleth a chynlluniau deietegol manwl i ddiwallu anghenion maethol unigolion penodol. Gall dysgwyr gyflawni tasgau ymarferol (gan gynnwys gwaith arbrofol) yn fedrus a hyderus gan arddangos dawn a manwl gywirdeb a dadansoddi canlyniadau a dod i gasgliadau cadarn o'u canfyddiadau. Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio amrywiaeth o sgiliau cyffredinol e.e. ymchwil, nodi ffactorau allweddol, dadansoddi, cynllunio a gwerthuso yn annibynnol ac yn hawdd a chywir, er mwyn mynd i'r afael â senarios diogelwch bwyd mewn amrywiaeth o amgylcheddau, a/neu i lunio project ymchwil manwl ar bwnc o'u dewis o fewn gwyddor bwyd a maeth. Bydd dysgwyr yn gallu nodi a throsglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o un dasg i'r llall yn gywir ac yn fanwl ar bob cyfle, gan arddangos yn glir sut i ddefnyddio dysgu mewn ffordd integredig a synoptig.

# 5 UNEDAU

<b>Uned 1</b>	<b>Diwallu Anghenion Maethol Grwpiau Penodol</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad</b>	180

## Nod a phwrpas

Pwrpas yr uned hon yw sicrhau bod dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o anghenion maethol grwpiau targed penodol a chynllunio a choginio seigiau cymhleth i ddiwallu eu hanghenion maethol.

## Cyflwyniad i'r uned

Pam mae angen i ni ddilyn rheoliadau hylendid bwyd? Beth yw croeshalogi? Sut y gwyddoch fod rhywbeth wedi'i goginio ac yn ddiogel i'w fwyta? Beth yw maetholion? Pam mae eu hangen arnom? A oes unrhyw fwyd yn "wael" i ni? A allai diodydd pefriol ddisodli dŵr? Sut mae colli symudedd yn effeithio ar yr hyn sydd angen i mi ei fwyta? A ddylem fwyta mwy yn y gaeaf? A all tabledi fitamin ddisodli ffrwythau ffres? Sut y gallwch sicrhau, wrth goginio pryd o fwyd, fod popeth yn barod ar amser? Sut y gallwch wneud i bryd o fwyd edrych yn atyniadol?

Mae deall hylendid bwyd yn ofyniad hanfodol i unrhyw un sy'n trin bwyd mewn sefyllfa ddiwydiannol neu ddomestig. Mae astudio maeth yn hanfodol mewn cymdeithas gan fod pwysau enfawr ar y system fwyd fyd-eang ac achosion cynyddol o faetheg wael, er bod mwy o ddiddordeb mewn materion sy'n ymwneud â bwyd. Bydd deall gofynion maethol ar gyfer deiet cytbwys yn caniatáu i ni wneud dewisiadau deietegol hyddysg. Mae angen i'r rheini sy'n gweithio ym maes cynhyrchu bwyd werthfawrogi gwerth maethol bwyd ac effaith hyn ar unigolion, gan fod gofynion maethol yn gallu amrywio yn ôl oedran, iechyd, crefydd a dewisiadau o ran ffordd o fyw. Mae angen i weithwyr y sector gofal sicrhau bod prydau yn diwallu anghenion grwpiau penodol o gleifion: yr henoed, pobl sâl a'r rhai sy'n brin o faeth. Mae'r rheini sy'n gweithio fel hyfforddwyr personol yn deall sut y gall cymeriant maethol athletwr effeithio ar ei berfformiad a gwybod beth yw'r dulliau mwyaf effeithiol o baratoi bwyd er mwyn manteisio i'r eithaf ar ei werth maethol.

P'un a yw'n coginio ar gyfer dau berson gartref, 100 o gleientiaid mewn cynhadledd neu 1000 o bobl mewn ysbyty, bydd unrhyw ben-gogydd neu gogydd yn sicrhau bod ganddo gynllun gweithredu, sy'n mynd i'r afael yn llawn â ffactorau iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau bod unrhyw fwyd a baratoir yn ddiogel i'w fwyta. Bydd hefyd yn sicrhau bod ganddo'r holl nwyddau a chyfarpar sydd eu hangen arno a digon o amser i baratoi a choginio'r seigiau ar y fwydlen.

Drwy gydol yr uned hon, byddwch wedi meithrin dealltwriaeth o sut i nodi peryglon a lleihau risgiau wrth gynhyrchu bwyd er mwyn diwallu anghenion maethol grwpiau penodol. Byddwch hefyd yn dysgu am fathau gwahanol o faetholion a sut y cânt eu defnyddio gan y corff i sicrhau y gallwch gynllunio deiet maethol cytbwys. Byddwch yn datblygu sgiliau ar gyfer paratoi, coginio a chyflwyno seigiau maethol sy'n diwallu anghenion penodol.



Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<b>Bydd y dysgwr yn:</b>	<b>Gall y dysgwr:</b>		
<b>DD1</b> deall pwysigrwydd diogelwch bwyd	<b>MPA1.1</b> esbonio sut y gall <b>unigolion</b> gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch bwyd	<b>Unigolion</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflogwyr</li> <li>• Cyflogeion</li> </ul>	Mae sawl ffordd y gwneir unigolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, er enghraifft drwy brosesau sefydlu a hyfforddi. Ceir ffyrdd hefyd lle y gallant gymryd cyfrifoldeb am bethau, fel monitro gweithgareddau a sefydlu systemau sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth. Dylai dysgwyr ddeall ym mha ffyrdd y mae unigolion yn dod i wybod am eu cyfrifoldebau a beth yw eu cyfrifoldebau.
	<b>MPA1.2</b> esbonio'r <b>dulliau</b> a ddefnyddir gan y sawl sy'n trin bwyd i gadw eu hunain yn lân ac yn hylan	<b>Dulliau (y sawl sy'n trin bwyd)</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hylendid personol</li> <li>• Dillad diogelwch</li> </ul>	Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd hylendid personol a sut mae'r dulliau a ddefnyddir yn bodloni gofynion rheoleiddio.
	<b>MPA1.3</b> esbonio'r <b>dulliau</b> a ddefnyddir i gadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn hylan	<b>Dulliau (ardaloedd gwaith)</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwaredu gwastraff</li> <li>• Arwyddion</li> <li>• Dylunio cegin</li> </ul>	Dylai dysgwyr ddeall sut mae dulliau gwahanol o gadw ardaloedd gwaith yn lân a hylaw yn lleihau risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd. Y risg fwyaf sylweddol i'w hystyried yw croeshalogi.
	<b>MPA1.4</b> dadansoddi <b>risgiau</b> sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd	<b>Risgiau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Achosion <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Bacteria</li> <li>○ Dirywiad bwyd</li> <li>○ Bwydydd risg uchel</li> <li>○ Halogi</li> <li>○ Alergeneg</li> </ul> </li> <li>• Goblygiadau <ul style="list-style-type: none"> <li>○ I ddefnyddwyr</li> <li>○ I fusnesau</li> </ul> </li> </ul>	Mae angen i ddysgwyr ddeall achosion a goblygiadau gweithredoedd a all arwain at broblemau o ran diogelwch bwyd. Mae angen iddynt ystyried achosion posibl a'r goblygiadau i ddefnyddwyr a busnesau.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreiffio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
DD2 deall priodweddau maetholion	<b>MPA2.1</b> esbonio strwythur <b>maetholion</b>	<b>Maetholion</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Proteinau</li> <li>• Lipidau</li> <li>• Carbohydradau</li> <li>• Mwynau</li> <li>• Fitaminau</li> <li>• Dŵr</li> </ul>	Dylai dysgwyr ddeall sut y caiff maetholion eu strwythuro a defnyddio termau a modelau cemegol.
	<b>MPA2.2</b> dosbarthu maetholion mewn bwydydd	<b>Dosbarthu</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwerth biolegol</li> <li>• Mynegai Glycemig</li> <li>• Dwysedd maetholion</li> <li>• Ffynonellau maetholion</li> <li>• Effeithiau ategol maetholion</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr wybod beth yw prif ffynhonnell a ffynhonnell eilaidd pob maetholyn a'i ddsbarthu mewn ffyrdd gwahanol.</p> <p>Dylai dysgwyr wybod sut i ddefnyddio mathau gwahanol o adnoddau i ddsbarthu maetholion mewn bwydydd e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Labeli bwyd</li> <li>• Ryseitiau</li> <li>• Gwerthoedd maethol.</li> </ul>
	<b>MPA2.3</b> asesu effaith <b>dulliau o gynhyrchu bwyd</b> ar werth maethol	<b>Dulliau o gynhyrchu bwyd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dulliau o goginio</li> <li>• Dulliau Pecynnu/Storio</li> <li>• Dulliau cadw</li> <li>• Atgyfnerthu bwydydd</li> </ul>	<p>Gallai dulliau coginio gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Berwi</li> <li>• Stemio</li> <li>• Rhostio</li> <li>• Ffrio dwfn.</li> </ul> <p>Gallai dulliau Pecynnu/Storio gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pacio dan wactod</li> <li>• Storio bwydydd yn oer</li> <li>• Prosesu a Phecynnu Bwyd Aseptig (AFP).</li> </ul> <p>Gallai dulliau cadw bwyd gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhewi</li> <li>• Cyffeithio</li> <li>• UHT.</li> </ul>

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
<b>DD3</b> deall y gydberthynas rhwng maetholion a'r corff dynol	<b>MPA3.1</b> disgrifio <b>swyddogaethau</b> maetholion yn y corff dynol	<b>Swyddogaethau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Twf a datblygiad</li> <li>• Cynhyrchu egni</li> <li>• Rheoleiddio metabolaeth</li> </ul>	Dylai dysgwyr fod yn gallu disgrifio swyddogaethau pob math o faetholyn a nodir yn MPA2.1 a bod yn ymwybodol o'u heffeithiau ategol.
	<b>MPA3.2</b> esbonio <b>priodweddau</b> cymeriant maethol <b>anfoddhaol</b>	<b>Priodweddau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweladwy</li> <li>• Anweladwy</li> </ul> <b>Anfoddhaol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffyg maeth</li> <li>• Gormod o faeth</li> </ul>	Mae angen i ddysgwyr ddeall priodweddau cymeriant maethol anfoddhaol. Dylai hyn fod yn broblemau diffyg maeth/gormod o faeth cyfredol ac nid hanesyddol. Mae problemau'n debygol o ymwneud â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gordewdra</li> <li>• Problemau treulio</li> <li>• Anemia</li> <li>• Cyflyrau'r croen</li> <li>• Problemau deintyddol</li> <li>• Clefyd coeliag</li> <li>• Y llech.</li> </ul>
	<b>MPA3.3</b> dadansoddi anghenion maethol <b>grwpiau penodol</b>	<b>Grwpiau penodol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Camau bywyd gwahanol <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Plentyndod</li> <li>○ Dod yn oedolyn, Menyw Cyn geni ac Ôl-enedigol, cyn y menopos ac ar ei ôl, Dyn</li> <li>○ Oedolyn yn hwyrach mewn bywyd</li> </ul> </li> <li>• Cyflyrau meddygol <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Diabetes Math 1/Math 2</li> <li>○ Hypercolesterolemia</li> <li>○ Anemia</li> <li>○ Anoddefgarwch lactos</li> <li>○ Clefyd coeliag</li> </ul> </li> <li>• Diwylliant <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Credoau crefyddol</li> <li>○ Fegan/llysieuwr</li> <li>○ Dewisiadau o ran ffordd o fyw</li> </ul> </li> </ul>	Mae angen i ddysgwyr ddadansoddi anghenion maethol grwpiau penodol gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut mae anghenion yn newid drwy gamau bywyd</li> <li>• Sut mae cyflyrau meddygol gwahanol yn effeithio ar gymeriant maethol</li> <li>• Sut mae diwylliant yn effeithio ar gymeriant maethol.</li> </ul>

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
	<b>MPA3.4</b> asesu sut mae gwahanol <b>sefyllfaoedd</b> yn effeithio ar anghenion maethol	<b>Sefyllfaoedd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amgylcheddau gwahanol</li> <li>• Gweithgareddau gwahanol</li> <li>• Ffactor gweithgarwch corfforol</li> </ul>	<p>Gallai amgylcheddau gwahanol gynnwys gweithleoedd, cartref, lleoedd gwyliau, tywydd, ysbyty.</p> <p>Gallai gweithgareddau gwahanol gynnwys achlysuron arbennig, gwaith (â llaw, eisteddog), gweithgareddau hamdden, patrymau gwaith fel gwaith sifft, hobïau, salwch.</p> <p>Gallai ffactorau gweithgarwch corfforol gynnwys mathau gwahanol o chwaraeon, gofynion gwaith.</p>
<b>DD4</b> Gallu cynllunio gofynion maethol	<b>MPA4.1</b> gwerthuso <b>addasrwydd at bwrpas</b> deietau	<b>Addasrwydd at bwrpas</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Maethol</li> <li>• Yn erbyn canllawiau</li> <li>• Cynnal pwysau</li> <li>• Bodloni anghenion personol <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Chwant bwyd</li> <li>○ Osgoi undonedd</li> <li>○ Patrymau bwyta</li> </ul> </li> </ul>	Dylai dysgwyr fod yn gallu dadansoddi deietau a gwerthuso pa mor dda y maent yn diwallu anghenion unigolion neu bolisi.
	<b>MPA4.2</b> cyfrifo gofynion maethol <b>unigolion</b> penodol	<b>Cyfrifo</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• BMR</li> <li>• Gwerthoedd cyfeirio deietegol</li> <li>• Ffactor gweithgarwch corfforol</li> <li>• Cymeriant maethol diffygiol/gormodol</li> </ul> <b>Unigolion</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Camau bywyd gwahanol</li> <li>• Lefelau gweithgarwch gwahanol</li> <li>• Cyflyrau meddygol gwahanol</li> <li>• Patrymau bwyta gwahanol</li> <li>• Amgylcheddau gwahanol</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr allu defnyddio adnoddau i gyfrifo gofynion. Gallai'r rhain gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol</li> <li>• Apiau ffôn symudol</li> <li>• Tablau bwyd</li> <li>• Siartiau a thablau cymeriant maethol a argymhellir.</li> </ul>

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
<b>DD5</b> cynllunio'r gwaith o greu seigiau cymhleth	<b>MPA5.1</b> dehongli ryseitiau ar gyfer <b>bwydlenni cymhleth</b>	<p><b>Bwydlenni cymhleth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfuno seigiau poeth ac oer</li> <li>• Defnyddio uwch dechnegau</li> <li>• Defnyddio termau technegol</li> <li>• Dim bwydydd wedi'u prosesu</li> </ul> <p><b>Dehongli</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen sgiliau a thechnegau</li> <li>• Angen nwyddau</li> <li>• Termau technegol</li> <li>• Amseriadau</li> </ul>	Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddefnyddio ryseitiau o amrywiaeth eang o adnoddau/ffynonellau hen a newydd e.e. llyfrau ryseitiau, gwefannau, cylchgronau.
	<b>MPA5.2</b> cynllunio'r broses o gynhyrchu bwydlenni	<b>Cynllunio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dilyniannu</li> <li>• Amseru <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Paratoi</li> <li>○ Coginio</li> <li>○ Cyflwyno/gorffen</li> </ul> </li> <li>• Gwastraff</li> <li>• Cyfarpar</li> <li>• Offer</li> <li>• Dulliau</li> <li>• Cyflwyno/gorffen y seigiau terfynol</li> <li>• Trefniadau wrth gefn</li> <li>• Iechyd, diogelwch personol a hylendid</li> <li>• Pwyntiau ansawdd</li> <li>• Storio</li> <li>• Arddull gwasanaeth</li> </ul>

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
DD6 coginio seigiau cymhleth	MPA6.1 defnyddio offer wrth baratoi nwyddau	<b>Offer</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyllyll</li> <li>• Cyfarpar</li> <li>• Cyfarpar trydanol</li> </ul> <b>Defnydd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Paratoi nwyddau</li> <li>• Defnyddio uwch dechnegau</li> <li>• Lleihau gwastraff</li> </ul>	Dylai dysgwyr ddatblygu sgiliau wrth ddefnyddio offer a chyfarpar yn ôl yr hyn sydd ar gael yn y ganolfan. Dylai'r ffocws fod ar ddefnyddio offer mewn ffordd fanwl a chyflym.
	MPA6.2 defnyddio uwch dechnegau wrth baratoi nwyddau	<b>Uwch dechnegau (paratoi)</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Troi</li> <li>• Siapio</li> <li>• Cerfio</li> <li>• Paratoi cig o ran braster</li> <li>• Tynnu esgryn (o gig)</li> <li>• Breuo</li> <li>• Cymysgu</li> <li>• Briwo</li> <li>• Cyfoethogi</li> <li>• Gwahanu</li> <li>• Ffiledu (pysgod)</li> <li>• Mowldio</li> </ul>	Dylai dysgwyr ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio'r uwch dechnegau a restrir. Dylai dysgwyr fod yn gyfarwydd ag enwau'r technegau, y sgiliau a'r dulliau dan sylw a sut i ddefnyddio technegau yn gyflym a manwl.
	MPA6.3 sicrhau deunyddiau o ansawdd i'w defnyddio wrth baratoi bwyd	<b>Ansawdd</b> Arogl Cyffyrddiad Golwg Storio Pecynnu <b>Deunyddiau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarpar</li> <li>• Offer</li> <li>• Nwyddau</li> </ul>	Dylai dysgwyr feddu ar ddigon o ddealltwriaeth i gynnal gwiriadau ansawdd yn fedrus wrth dderbyn deunyddiau i'w defnyddio drwy gydol y prosesau coginio.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
	<p><b>MPA6.4</b> defnyddio uwch dechnegau wrth goginio nwyddau</p>	<p><b>Uwch dechnegau (coginio)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Berwi <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Dŵr - court-bouillon, llaeth, stoc</li> </ul> </li> <li>• Potsio <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Bas, dwfn</li> </ul> </li> <li>• Stiwio <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Dŵr, stoc, saws</li> </ul> </li> <li>• Brwysio <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Brownio h.y. golwython a darnau o gig</li> <li>○ Gwynnu e.e. llysiau ac eirin oen</li> </ul> </li> <li>• Stemio <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Uniongyrchol, anuniongyrchol, dan bwysedd uchel</li> </ul> </li> <li>• Pobi <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Pobi'n sych, pobl gyda lleithder cynyddol, pobl drwy addasu'r gwres</li> </ul> </li> <li>• Rhostio <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ffwrn, ar gigwain</li> </ul> </li> <li>• Coginio Bwyd Tandoori</li> <li>• Grilio (ar radell) <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Gordwymo, tandwymo, rhwng gwres</li> </ul> </li> <li>• Ffrio <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Bas, dwfn, sauté, tro-ffrio</li> </ul> </li> <li>• Bag papur/en papillotte</li> <li>• Meicrodon</li> <li>• Pot-rostio <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Poêle</li> </ul> </li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio'r uwch dechnegau a restrir. Dylai dysgwyr fod yn gyfarwydd ag enwau'r technegau, y sgiliau a'r dulliau dan sylw a sut i ddefnyddio technegau yn gyflym a manwl.</p>

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
	<b>MPA6.5 cyflwyno</b> seigiau bwyd cymhleth wedi'u coginio gan ddefnyddio uwch dechnegau cyflwyno	<b>Technegau cyflwyno</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Peipio</li> <li>• Cerfio</li> <li>• Siapio</li> <li>• Mowldio</li> <li>• Sgleinio</li> <li>• Rholio</li> <li>• Torri</li> <li>• Gwaith siwgr</li> <li>• Couverture</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio'r uwch dechnegau a restrir. Dylai dysgwyr fod yn gyfarwydd ag enwau'r technegau, y sgiliau a'r dulliau dan sylw a sut i ddefnyddio technegau yn gyflym a manwl.</p> <p>Dylai dysgwyr weithio gan ystyried y safonau cyflwyno canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Blas</li> <li>• Arogl</li> <li>• Ymddangosiad</li> <li>• Gwead.</li> </ul>
	<b>MPA6.6</b> defnyddio arferion diogelwch bwyd	<b>Arferion diogelwch bwyd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fel y nodir yn DD1</li> </ul>	Mae angen i ddysgwyr ddangos cyfrifoldeb unigol am weithio'n ddiogel a hylan drwy gymhwyso'r arferion diogelwch bwyd a ddysgwyd yn DD1.
	<b>MPA6.7 monitro'r</b> broses o gynhyrchu bwyd	<b>Monitro</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Graddfeydd amser</li> <li>• Nwyddau</li> <li>• Technegau</li> <li>• Dilyniannu</li> <li>• Pwyntiau ansawdd/rheoli critigol</li> </ul>	Mae angen i ddysgwyr wybod sut i fonitro cynnydd ar bob cam o'r broses o gynhyrchu bwyd. Dylent fod yn gallu cymryd cyfrifoldeb am fonitro cynnydd a gwirio bod y mesurau rheoli critigol ar waith ar bob cam o'r broses o gynhyrchu bwyd.



Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
<b>DD1</b> Deall pwysigrwydd diogelwch bwyd	<b>MPA1.1</b> Esbonio sut y gall unigolion gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch bwyd	Esbonio â pheth rhesymu sut y gall unigolion gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch bwyd mewn perthynas â'r astudiaeth achos.  1	Esbonio â pheth rhesymu clir sut y gall amrywiaeth o unigolion gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch bwyd mewn perthynas â'r astudiaeth achos.  2	Esbonio â rhesymu clir a manwl sut y gall amrywiaeth o unigolion gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch bwyd mewn perthynas â'r astudiaeth achos.  3
	<b>MPA1.2</b> Esbonio'r dulliau a ddefnyddir gan y sawl sy'n trin bwyd i gadw eu hunain yn lân ac yn hylan	Esbonio â pheth rhesymu y dulliau a ddefnyddir gan y sawl sy'n trin bwyd i gadw eu hunain yn lân ac yn hylan. Mae'r dulliau yn berthnasol i'r astudiaeth achos mewn rhyw ffordd.  1	Esbonio â pheth rhesymu amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir gan y sawl sy'n trin bwyd i gadw eu hunain yn lân ac yn hylan sy'n bennaf briodol i'r astudiaeth achos.  2	Esbonio â rhesymu clir a manwl amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir gan y sawl sy'n trin bwyd i gadw eu hunain yn lân ac yn hylan sy'n briodol i'r astudiaeth achos.  3
	<b>MPA1.3</b> Esbonio'r dulliau a ddefnyddir i gadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn hylan	Esbonio â pheth rhesymu dulliau a ddefnyddir i gadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn hylan. Mae'r dulliau yn berthnasol i'r astudiaeth achos mewn rhyw ffordd.  1	Esbonio â pheth rhesymu clir amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir i gadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn hylan sy'n bennaf briodol i'r astudiaeth achos.  2	Esbonio â rhesymu clir a manwl amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir i gadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn hylan sy'n briodol i'r astudiaeth achos.  3
	<b>MPA1.4</b> Dadansoddi risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd	Dadansoddi peth gwybodaeth er mwyn pennu amrywiaeth gyfyngedig o risgiau priodol sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd mewn perthynas â'r astudiaeth achos.  1	Dadansoddi gwybodaeth er mwyn pennu amrywiaeth o risgiau i ddiogelwch bwyd sy'n bennaf briodol i'r astudiaeth achos.  2	Dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth er mwyn pennu amrywiaeth o risgiau i ddiogelwch bwyd sy'n briodol i'r astudiaeth achos.  3

Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
DD2 Deall priodweddau maetholion	<b>MPA2.1</b> Esbonio strwythur maetholion	Esbonio â pheth rhesymu strwythur amrywiaeth gyfyngedig o faetholion. Mae perthnasedd y maetholion i'r astudiaeth achos yn ddealedig.	Yn esbonio, gyda rhywfaint o resymu clir, strwythur amrywiaeth o faetholion. Mae peth cysylltiad amlwg rhwng y maetholion a'r astudiaeth achos.	Yn esbonio, gyda rhesymu clir a manwl, strwythur amrywiaeth o faetholion priodol. Mae cysylltiadau amlwg rhwng y maetholion a'r astudiaeth achos.
		1	2	3
	<b>MPA2.2</b> Dosbarthu maetholion mewn bwydydd	Dosbarthu maetholion yn gywir gan ddefnyddio un dull. Nid yw priodoldeb y dull yn glir. Dosbarthiad yn cynnwys prif ffynonellau a ffynonellau eilaidd. Mae perthnasedd y maetholion i'r astudiaeth achos yn ddealedig.	Dosbarthu maetholion yn gywir gan ddefnyddio dulliau gwahanol. Ceir peth cyfeiriad at y dewis o ddull dosbarthu. Dosbarthiad yn cynnwys prif ffynonellau a ffynonellau eilaidd. Mae peth cysylltiad amlwg rhwng y maetholion a'r astudiaeth achos.	Dosbarthu maetholion yn gywir gan ddefnyddio dulliau gwahanol. Rheswm dros ddewis dulliau dosbarthu yn glir. Dosbarthiad yn cynnwys prif ffynonellau a ffynonellau eilaidd. Mae cysylltiadau amlwg rhwng y maetholion a'r astudiaeth achos.
	1	2	3	
	<b>MPA2.3</b> Asesu effaith dulliau o gynhyrchu bwyd ar werth maethol	Asesu sut mae amrywiaeth o ddulliau cynhyrchu bwyd yn effeithio ar werth maethol. Mae gan yr asesiadau beth rhesymu mewn perthynas â'r astudiaeth achos.	Asesu sut mae amrywiaeth o ddulliau cynhyrchu bwyd yn effeithio ar werth maethol. Mae'r asesiadau wedi'u rhesymu'n bennaf mewn perthynas â'r astudiaeth achos.	Asesu sut mae amrywiaeth o ddulliau cynhyrchu bwyd yn effeithio ar werth maethol. Mae'r asesiadau'n glir ac wedi'u rhesymu'n dda mewn perthynas â'r astudiaeth achos.
	1	2	3	

Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
<b>DD3</b> Deall y gydberthynas rhwng maetholion a'r corff dynol	<b>MPA3.1</b> Disgrifio swyddogaethau maetholion yn y corff dynol	Disgrifio swyddogaethau amrywiaeth o faetholion yn y corff dynol. Mae gan y disgrifiad beth perthnasedd i'r grwpiau penodol yn yr astudiaeth achos.  1	Disgrifio swyddogaethau amrywiaeth o faetholion yn y corff dynol sy'n bennaf briodol. Mae'r disgrifiad yn bennaf perthnasol i'r grwpiau penodol yn yr astudiaeth achos.  2	Disgrifio'n fanwl swyddogaethau amrywiaeth o faetholion yn y corff dynol sy'n briodol. Mae'r disgrifiad yn berthnasol i'r grwpiau penodol yn yr astudiaeth achos.  3
	<b>MPA3.2</b> Esbonio priodweddau cymeriant maethol anfoddhaol	Esbonio â pheth rhesymu priodweddau cymeriant maethol anfoddhaol. Mae rhywfaint o berthnasedd i grwpiau penodol a gwybodaeth yn yr astudiaeth achos.  1	Esbonio â pheth rhesymu clir priodweddau cymeriant maethol anfoddhaol. Mae'r dystiolaeth yn bennaf briodol i'r grwpiau penodol a'r wybodaeth yn yr astudiaeth achos.  2	Esbonio â rhesymu clir a manwl priodweddau cymeriant maethol anfoddhaol. Mae'r dystiolaeth yn briodol i'r grwpiau penodol a'r wybodaeth yn yr astudiaeth achos.  3
	<b>MPA3.3</b> Dadansoddi anghenion maethol grwpiau penodol	Dadansoddi peth gwybodaeth er mwyn pennu amrywiaeth gyfyngedig o anghenion maethol grwpiau penodol yn yr astudiaeth achos.  1	Dadansoddi gwybodaeth er mwyn pennu amrywiaeth o anghenion maethol grwpiau penodol sy'n bennaf briodol i'r astudiaeth achos.  2	Dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth er mwyn pennu anghenion maethol grwpiau penodol sy'n briodol i'r astudiaeth achos.  3
	<b>MPA3.4</b> Asesu sut mae gwahanol sefyllfaoedd yn effeithio ar anghenion maethol	Asesu sut mae gwahanol sefyllfaoedd yn effeithio ar anghenion maethol grwpiau penodol yn yr astudiaeth achos. Mae'r asesiadau yn cynnwys rhywfaint o resymu â thystiolaeth gyfyngedig er mwyn dod i gasgliadau.  1	Asesu sut mae gwahanol sefyllfaoedd yn effeithio ar anghenion maethol grwpiau penodol yn yr astudiaeth achos. Mae'r asesiadau wedi'u rhesymu'n bennaf â pheth dystiolaeth er mwyn dod i gasgliadau.  2	Asesu sut mae gwahanol sefyllfaoedd yn effeithio ar anghenion maethol grwpiau penodol yn yr astudiaeth achos. Mae'r asesiadau'n glir ac wedi'u rhesymu'n dda â thystiolaeth er mwyn dod i gasgliadau.  3

Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
<b>DD4</b> Cynllunio gofynion maethol	<b>MPA4.1</b> Gwerthuso addasrwydd at bwrpas deietau	Gwerthusir amrywiaeth gyfyngedig o wybodaeth er mwyn pennu addasrwydd at bwrpas deietau. Mae'r asesiadau'n cynnwys rhywfaint o resymu â thystiolaeth gyfyngedig er mwyn dod i gasgliadau. 1	Gwerthusir gwybodaeth er mwyn pennu addasrwydd at bwrpas deietau. Mae'r casgliadau wedi'u rhesymu'n bennaf â pheth tystiolaeth er mwyn dod i gasgliadau. 2	Gwerthusir gwybodaeth er mwyn pennu addasrwydd at bwrpas deietau. Mae'r casgliadau'n glir ac wedi'u rhesymu'n dda â thystiolaeth er mwyn dod i gasgliadau. 3
	<b>MPA4.2</b> Cyfrifo gofynion maethol unigolion penodol	Cyfrifir gofynion maethol grwpiau penodol yn yr astudiaeth achos. Mae cyfrifiadau yn cynnwys mân wallau a hepgoriadau. 1	Cyfrifir gofynion maethol grwpiau penodol yn yr astudiaeth achos. Mae'r cyfrifiadau yn gywir ar y cyfan, gall fod rhai hepgoriadau ac maent yn dod o ffynonellau dilys. 2	Cyfrifir gofynion maethol grwpiau penodol yn yr astudiaeth achos. Mae'r cyfrifiadau'n gywir, wedi'u cyflwyno'n glir ac maent yn dod o ffynonellau dilys. 3
<b>DD5</b> Cynllunio'r gwaith o greu seigiau cymhleth	<b>MPA5.1</b> Dehongli ryseitiau ar gyfer prydau cymhleth	Caiff ryseitiau eu dehongli er mwyn nodi gofynion. Gall fod rhai mân wallau. 1	Caiff ryseitiau eu dehongli er mwyn nodi gofynion yn gywir. 2	
	<b>MPA5.2</b> Cynllunio'r broses o gynhyrchu bwydlenni	Mae'r cynllun yn gymharol fanwl ac yn briodol ar y cyfan ond gall fod rhai hepgoriadau a gwallau i'w diwygio. Rhoddir rhywfaint o ystyriaeth i gynllunio wrth gefn. 1	Mae'r cynllun yn fanwl gyda rhai mân hepgoriadau. Nid oes angen newid y cynllun er mwyn cyflawni'r deilliant bwriadedig, ond byddai mân ddiwygiadau o fudd. Mae cynlluniau wrth gefn ystyrion. 2	Mae'r cynllun yn gynhwysfawr ac yn fanwl, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ystyrion ar gyfer y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. 3

Deilliant Dysgu	Meini Prawf Asesu	Bandiau Perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
<b>DD6</b> Gallu coginio seigiau cymhleth	<b>MPA6.1</b> Defnyddio offer wrth baratoi nwyddau	Defnyddir amrywiaeth o offer wrth baratoi nwyddau. Efallai mai prin yw'r manwl gywirdeb a welir yn y sgiliau a arddangosir. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch bwyd drwy gydol y broses.  1	Defnyddir amrywiaeth o gyfarpar mewn ffordd fanwl gywir wrth baratoi nwyddau. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch bwyd drwy gydol y broses.  2	
	<b>MPA6.2</b> Defnyddio uwch dechnegau wrth baratoi nwyddau	Defnyddir amrywiaeth o uwch dechnegau. Efallai mai prin yw'r manwl gywirdeb a welir yn y sgiliau a arddangosir ac mae angen amser ychwanegol i fodloni'r gofynion. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch bwyd drwy gydol y broses.  1	Defnyddir amrywiaeth o uwch dechnegau priodol. Efallai mai prin yw'r manwl gywirdeb a welir yn y sgiliau a arddangosir neu bydd angen amser ychwanegol i fodloni'r gofynion. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch bwyd drwy gydol y broses.  2	Defnyddir amrywiaeth o uwch dechnegau priodol â chyflymder a manwl gywirdeb. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch bwyd drwy gydol y broses.  3
	<b>MPA6.3</b> Sicrhau deunyddiau o ansawdd i'w defnyddio wrth baratoi bwyd	Caiff amrywiaeth o ddeunyddiau eu harchwilio er mwyn sicrhau ansawdd drwy gydol y broses baratoi a chaiff materion eu nodi a'u datrys.  1		
	<b>MPA6.4</b> Defnyddio uwch dechnegau wrth goginio nwyddau	Defnyddir amrywiaeth o uwch dechnegau. Efallai mai prin yw'r manwl gywirdeb a welir yn y sgiliau a arddangosir ac mae angen amser ychwanegol i fodloni'r gofynion. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch bwyd drwy gydol y broses.  1	Defnyddir amrywiaeth o uwch dechnegau priodol gydag arweiniad cyfyngedig. Efallai mai prin yw'r manwl gywirdeb a welir yn y sgiliau a arddangosir neu bydd angen amser ychwanegol i fodloni'r gofynion. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch bwyd drwy gydol y broses.  2	Defnyddir amrywiaeth o uwch dechnegau priodol â chyflymder a manwl gywirdeb. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch bwyd drwy gydol y broses.  3

Deilliant Dysgu	Meini Prawf Aseu	Bandiau Perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
	<b>MPA6.5</b> Cyflwyno seigiau bwyd cymhleth wedi'u coginio gan ddefnyddio uwch dechnegau cyflwyno	Cyflwynir seigiau gan ddefnyddio rhai uwch dechnegau. Mae ansawdd y seigiau yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran ymddangosiad, arogl a blas. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch bwyd drwy gydol y broses.	Cyflwynir seigiau gan ddefnyddio amrywiaeth o uwch dechnegau priodol gyda rhywfaint o fanwl gywirdeb. Mae ansawdd y seigiau yn rhagori ar rai o'r safonau gofynnol o ran ymddangosiad, arogl a blas. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch bwyd drwy gydol y broses.	Cyflwynir seigiau gan ddefnyddio amrywiaeth o uwch dechnegau priodol gyda manwl gywirdeb. Mae ansawdd y seigiau yn rhagori ar y rhan fwyaf o'r safonau gofynnol o ran ymddangosiad, arogl a blas. Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch bwyd drwy gydol y broses.
		1	2	3
	<b>MPA6.6</b> Defnyddio arferion diogelwch bwyd	Defnyddio arferion diogelwch bwyd priodol.		
		1		
	<b>MPA6.7</b> Monitro'r broses o gynhyrchu bwyd	Caiff cynlluniau cynhyrchu bwyd eu monitro a'u haddasu fel sy'n ofynnol ar gamau allweddol drwy gydol y broses.	Caiff cynlluniau cynhyrchu bwyd eu monitro a'u haddasu drwy gydol y broses.	
		1	2	

## Asesu

### Gofynion ar gyfer canolfannau

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol ac yn allanol. Bydd y ddau asesiad yn darparu gradd ar gyfer yr uned. Ceir manylion am sut y mae'r dull asesu yn cyfrannu at ddyfarnu gradd yn Adran 4 o'r fanyleb.

Dangosir manylion y gofynion i ganolfannau ar gyfer asesiad mewnol ac allanol isod.

### Asesiad allanol

Bydd yr asesiad allanol ar gael ym mis Mehefin bob blwyddyn. Mae'r fanyleb ar gyfer yr asesiad allanol fel a ganlyn:

*Hyd:* 90 munud ynghyd ag amser darllen o 15 munud

*Nifer y marciau:* 90

*Dyraniad marciau:*

	<b>DD1</b>	<b>DD2</b>	<b>DD3</b>	<b>DD4</b>
<b>%</b>	<b>15-25%</b>	<b>15-25%</b>	<b>25-35%</b>	<b>25-35%</b>
<b>Marciau</b>	<b>14-22</b>	<b>14-22</b>	<b>22-31</b>	<b>22-31</b>

*Graddio:* Llwyddiant Lefel 3, Teilyngdod Lefel 3, Rhagoriaeth Lefel 3

*Strwythur:* Tair adran

- Adran A - cwestiynau atebion byr
- Adran B - cwestiynau atebion estynedig
- Mae Adran C yn ymwneud ag astudiaeth achos.

### Asesiad mewnol

Caiff deilliannau asesiad mewnol eu safoni'n allanol. Mae'n rhaid cynnal pob asesiad o dan amodau asesu dan reolaeth a phennwyd rheolaethau ar gyfer pob cam o'r broses asesu: pennu tasgau, cyflawni tasgau a marcio tasgau.

### Pennu tasgau

Er mwyn helpu canolfannau i asesu'r uned hon, mae CBAC wedi darparu aseiniad enghreifftiol ynghyd â chanllawiau a meini prawf sy'n gysylltiedig â'i ddefnyddio. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys tasgau sy'n gofyn am ddull gweithredu cymhwysol a chyfannol. Cynllunnir yr aseiniadau enghreifftiol fel y gellir eu defnyddio fel ag y maent neu fel y gall canolfannau eu haddasu i gyfateb i anghenion y sector lleol a defnyddio'r adnoddau lleol sydd ar gael i'r ganolfan. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys gwybodaeth am ba agweddau ar yr aseiniad y gellir eu haddasu.

## Pennu tasgau

Fel rhan o'r broses o gyflawni tasgau, pennir rheolaethau ar gyfer yr agweddau allweddol, sef amser, adnoddau, goruchwyliaeth a chydweithio.

- Caiff yr amser y dylid ei gymryd ei ddynodi yn yr aseiniad enghreifftiol
- Rhaid darparu adnoddau sy'n rhoi cyfleoedd teg a llawn i'r dysgwyr weld y meini prawf ar gyfer marcio ac sy'n briodol o ran yr asesiad a gofynion yr uned. Nodir manylion rheolaethau penodol yn yr asesiad enghreifftiol
- Gwybodaeth am ble y darperir goruchwyliaeth uniongyrchol yn yr aseiniad enghreifftiol.
- Rhoddir cyfarwyddiadau ar ble y caniateir cydweithredu yn yr uned hon yn yr aseiniad enghreifftiol ar gyfer yr uned hon
- Rhoddir canllawiau ar gydweithio, a lle y'i caniateir, â'r aseiniad enghreifftiol.

O fewn aseiniadau enghreifftiol CBAC, mae'n bosibl y gwneir awgrymiadau o ran amseru rhai tasgau unigol o fewn y cyfnod asesu cyffredinol. Pwrpas hyn yw rhoi canllawiau ychwanegol i ganolfannau er mwyn helpu i reoli'r dasg asesu.

## Marcio tasgau

Rhaid i'r ganolfan farcio tystiolaeth asesu dysgwr yn erbyn y bandiau perfformiad ar gyfer pob maen prawf asesu. Mae'r bandiau perfformiad yn disgrifio i ba raddau y mae'r dysgwr wedi bodloni'r maen prawf asesu.

## Canllawiau Cyflwyno

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cydnabod bod y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau maent yn eu meithrin yn berthnasol yn alwedigaethol. Mae sawl ffordd y gellir cyflawni hyn:

- Trefnu ymweliadau â gweithleoedd fel canolfannau dydd i oedolion ac ymchwilio i'r modd y mae bwydlenni yn bodloni gofynion maeth a diogelwch bwyd.
- Trefnu sgysiau gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
- Cynnal gweithgarwch ar sail gwaith fel coginio prydau maethlon i grŵp o oedolion sy'n paratoi ar gyfer gweithgarwch chwaraeon.
- Trefnu ymweliadau â gweithleoedd fel cegin ysbyty i weld sut y caiff y broses o gynhyrchu bwyd ar raddfa fawr ei chynllunio a'i gweithredu.
- Trefnu sgysiau gan siaradwyr gwadd, er enghraifft rheolwr ansawdd ar gyfer gwaith prosesu bwyd i drafod gwiriadau ansawdd a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwyd.

I ddilyn, ceir enghreifftiau o ddulliau o gyflawni y gellid eu defnyddio i wella'r ffordd y caiff pwysigrwydd galwedigaethol paratoi a choginio seigiau i ddiwallu anghenion maethol grwpiau penodol eu dysgu a'u deall.

## Enghraifft 1

Gallai Hyfforddwr Personol gyflwyno dysgwyr i un neu fwy o'u cleientiaid. Mae dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu drwy weithio gyda'r cleientiaid i bennu eu lefelau gweithgarwch a'u deiet. Bydd dysgwyr yn nodi anghenion maethol yn seiliedig ar yr unigolyn ac yn cyfrifo'r gyfradd metabolaeth waelodol (BMR), gan ystyried y ffactor gweithgarwch corfforol. Ar ôl cyfrifo eu gofynion maethol, bydd dysgwyr yn gweithio gyda'r hyfforddwr personol i ddatblygu seigiau maethlon. Maent yn paratoi ac yn coginio'r seigiau ac yn eu rhannu â chleientiaid yr hyfforddwr personol, ynghyd â manylion am sut y mae'r seigiau yn diwallu anghenion maethol eu cleientiaid.



## Enghraifft 2

Rhoddir gwybodaeth i ddysgwyr, gan gynnwys gwybodaeth feddygol, am grwpiau o bobl o fewn amgylchedd gofal. Bydd dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau i ddatblygu bwydlen ddyddiol gyffredinol sy'n cynnwys yr holl faetholion hollbwysig ac sy'n bodloni gofynion pawb. Bydd dysgwyr yn hysbysu'r Rheolwr Gofal neu'r Rheolwr Arlwyo am eu hargymhellion ac yn cynhyrchu'r seigiau i'w blasu gan y trigolion. Bydd dysgwyr yn cael adborth gan y trigolion a'r Rheolwr Gofal ac Arlwyo ar ansawdd eu bwyd a'u bwydlenni.

## Enghraifft 3

Bydd Pen-gogydd o'r gymuned leol yn rhoi detholiad o ryseitiai a dulliau i ddysgwyr a ddefnyddir yn ei sefydliad ef. Rhaid i ddysgwyr weithio mewn grwpiau i gynhyrchu trefn y gwaith ar gyfer pob rysâit y gallai prentis ei dilyn, sy'n talu sylw llwyr i bwyntiau rheoli critigol ac atal peryglon. Bydd dysgwyr yn adolygu'r allbynnau a'r bwydlenni ac yn asesu eu gwerth maethol ar gyfer grwpiau penodol gwahanol.

## Enghraifft 4

Mae cwmni cynhyrchu bwyd yn rhoi manylion eu cynhyrchion a'r prosesau a ddefnyddir i'w creu. Bydd dysgwyr yn gweithio mewn timau i werthuso gwerth maethol y cynhyrchion, cyn ac ar ôl cynhyrchu ac yn llunio adroddiad i gynrychiolwyr y cwmni. Bydd dysgwyr yn paratoi ac yn coginio'r un seigiau i ddangos sut y gellir gwella gwerthoedd maethol.

## Enghraifft 5

Gallai cylch chwarae osod project i ddysgwyr i gynhyrchu prydau i blant bach y gellid eu coginio yn eu ceginau. Bydd dysgwyr yn datblygu'r sgiliau technegol sydd eu hangen i gyflwyno seigiau a fyddai'n apelio at blant.

## Enghraifft 6

Mae pen-gogydd o fwyty yn rhoi ryseitiai i ddysgwyr o'r bwydlenni. Rhoddir terfyn amser penodol i ddysgwyr weithio dan bwysau i gynhyrchu'r seigiau, gan ddefnyddio cynlluniau a ddarparwyd gan y pen-gogydd. Caiff ansawdd y seigiau terfynol ei werthuso gan staff y bwyty. Bydd dysgwyr yn trafod â'r pen-gogydd i weld sut y gellid addasu'r cynlluniau.

## Creu cysylltiadau

Mae'r sefydliadau y gellid cysylltu â hwy i ddarparu help yn cynnwys y canlynol:

- Adrannau Iechyd yr Amgylchedd
- Gweithwyr proffesiynol yn y GIG
- Rheolwyr arlwyo
- Sefydliadau arlwyo dan gontract
- Elusennau sy'n darparu bwyd i ddefnyddwyr gwasanaethau
- Gwestai a bwytai
- Sefydliadau sy'n cynhyrchu bwyd.

## Adnoddau

### Llyfrau

Bender, D. (2002). *An Introduction to Nutrition and Metabolism* (3rd Ed). Oxford, UK: Taylor a Francis Ltd

Brown, A.C. (2010). *Understanding Food: Principles and Preparation* (4ydd Arg).

UDA: Wadsworth Publishing

Campbell J (et al) (2011) *Practical Cookery Level 3* Hodder Education

Cesarani V (2002) *Advanced Practical Cookery: A Textbook for Education and Industry* Hodder Education

Drummond, K.E. a Brefere, L.M. (2009). *Nutrition for Foodservice and Culinary Professionals* (7fed Arg). Hoboken, NJ, USA: John Wiley and Sons

Foskett D, Cesarani V, (2007) *Cesarani and Kinton's The Theory of Catering* Dynamic Learning

Asiantaeth Safonau Bwyd. (2008). *Manual of Nutrition* (11th Ed). London, UK: Stationary Office

Jeukendrup, A. a Gleeson, M. (2004). *Sport Nutrition: An Introduction to Energy*

*Production and Performance*. Leeds, UK: Human Kinetics

Smith, M. a Morton, D. (2001). *The Digestive System: Systems of the body*. London, UK: Churchill Livingstone

### Gwefannau

[www.foodsafety.gov](http://www.foodsafety.gov)

<http://homefoodsafety.org/app>

BBC Health: [www.bbc.co.uk/health/healthyliving](http://www.bbc.co.uk/health/healthyliving)

British Nutrition Foundation: [www.nutrition.org.uk](http://www.nutrition.org.uk)

CORE: <http://www.corecharity.org.uk/>

Yr Adran Iechyd: [www.dh.gov.uk](http://www.dh.gov.uk)

<http://www.dynamic-learning.co.uk/Product.aspx?productID=164>

[www.excellencegateway.org.uk/askbutler.examples.id295](http://www.excellencegateway.org.uk/askbutler.examples.id295)

Ffederasiwn Bwyd a Diod: [www.fdf.org.uk](http://www.fdf.org.uk)

Asiantaeth Safonau Bwyd: [www.food.gov.uk/aboutus/publications/industrypublications/](http://www.food.gov.uk/aboutus/publications/industrypublications/)

Food Vision: [www.foodvision.gov.uk](http://www.foodvision.gov.uk)

Health Research Agency: [www.nice.org.uk](http://www.nice.org.uk)

<http://www.hoddereducation.co.uk/Colleges/Hospitality---Catering/Practical-Cookery-series-page/Practical-Cookery-Level-3-supporting-resources.aspx>

Y GIG: <http://www.nhs.uk/livewell/healthy-eating/Pages/Healthyeating.aspx>

National Obesity Forum: <http://www.nationalobesityforum.org.uk/>

Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru: <http://www.publichealthnetwork.cymru/cy/>

The British Dietetic Association: [www.bda.uk.com](http://www.bda.uk.com)

Vegetarian Society: [www.veg.soc.org.uk](http://www.veg.soc.org.uk)

<b>Uned 2</b>	<b>Sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad</b>	90

### **Nod a phwrpas**

Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o beryglon a risgiau mewn perthynas â storio, paratoi a choginio bwyd mewn gwahanol amgylcheddau a'r mesurau rheoli sydd eu hangen i leihau'r risgiau hyn. Ar sail y ddealltwriaeth hon, bydd dysgwyr yn gallu argymhell y mesurau rheoli a ddylai fod ar waith, mewn amgylcheddau gwahanol, er mwyn sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta.

### **Cyflwyniad i'r uned**

Pam y dylem ddilyn argymhellion storio ar gynhyrchion bwyd? Pam mae angen i fwydlenni dynnu sylw at gynhyrchion sy'n cynnwys cnau? Pam y dylai seigiau llysieuol gael eu paratoi i ffwrdd oddi wrth y rhai sy'n cynnwys cig? Pam y defnyddir stilwyr tymheredd yn y diwydiant bwyd? Sut y gallwch fod yn siŵr bod y bwyd a fwytwch yn ddiogel?

Mae angen storio, trin, paratoi a choginio bwyd yn gywir er mwyn sicrhau nad yw'n effeithio ar iechyd y bobl sy'n ei fwyta. I rai pobl, effeithir ar eu hiechyd am fod ganddynt anoddefgarwch neu alergedd, ond gall effeithio ar iechyd pawb os cânt wenwyn bwyd. Mae gan bawb sy'n gweithio yn y diwydiant bwyd gyfrifoldeb am leihau'r risgiau o achosi salwch a gludir mewn bwyd. Diogelwch bwyd yw un o faterion iechyd mawr yr oes hon, ac mae sawl rôl o fewn y diwydiant bwyd yn gysylltiedig â diogelwch bwyd. Mae llawer o wyddonwyr bwyd yn gweithio i adrannau iechyd yr Amgylchedd awdurdodau lleol fel arolygwyr bwyd. Mae arolygwyr bwyd yn sicrhau bod busnesau'n cynhyrchu ac yn gweini bwyd sy'n ddiogel i'w fwyta; byddai hyn yn cynnwys ystod gyfan o fusnesau o siop fara fawr i stondin yn gwerthu pasteiod mewn gŵyl leol. Mae arolygwyr bwyd hefyd yn sicrhau nad yw disgrifyddion bwyd (ar fwydlenni er enghraifft) yn camarwain cwsmeriaid ac yn helpu i leihau'r risgiau o fod yn sâl, er enghraifft, gan nodi os yw rhai seigiau yn cynnwys cnau.

Yn yr uned hon, byddwch yn dysgu am ddiogelwch bwyd, sut y gall micro-organebau effeithio ar ddiogelwch bwyd, sut y gall rhai bwydydd achosi salwch mewn pobl sydd ag anoddefgarwch neu alergedd a pha reolaethau ddylai fod ar waith i leihau'r risgiau o fwyd yn achosi salwch. Bydd y ddealltwriaeth hon yn eich galluogi i argymhell y rheolaethau diogelwch a ddylai fod ar waith mewn amgylcheddau gwahanol lle caiff bwyd ei storio, ei baratoi a'i goginio.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
<b>DD1</b> deall sut mae micro-organebau yn effeithio ar ddiogelwch bwyd	<b>MPA1.1</b> disgrifio <b>priodweddau micro-organebau</b>	<b>Micro-organebau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bacteria</li> <li>• Firysau</li> <li>• Ffyngau</li> </ul> <b>Priodweddau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Maint</li> <li>• Lleoliad</li> <li>• Adeiledd cellog</li> <li>• Pathogenesis</li> <li>• Twf/atgynhyrchu</li> </ul>	Dylai dysgwyr fod yn gallu rhoi disgrifiadau ffeithiol o bob math o ficro-organeb gan ddefnyddio termau a modelau gwyddonol
	<b>MPA1.2</b> asesu sut mae <b>amodau</b> newidiol yn effeithio ar dwf micro-organebau mewn gwahanol <b>amgylcheddau</b>	<b>Amodau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tymheredd</li> <li>• pH</li> <li>• Ocsigen</li> <li>• Dŵr</li> <li>• Maetholion</li> </ul> <b>Amgylcheddau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Paratoi</li> <li>• Coginio</li> <li>• Gweini</li> <li>• Storio</li> <li>• Cludo</li> <li>• Awyr agored</li> <li>• Dros dro</li> </ul>	Dylai dysgwyr wybod beth sydd ei angen er mwyn i ficro-organebau dyfu fel eu bod yn deall sut mae amodau newidiol yn effeithio ar dwf. Dylent ystyried pob micro-organeb yn MPA1.1 a llunio barn sy'n ymgorffori cyfeiriad at eu priodweddau.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<b>Bydd y dysgwr yn:</b>	<b>Gall y dysgwr:</b>		
	<b>MPA1.3</b> esbonio sut mae micro-organebau yn effeithio ar <b>ansawdd</b> bwyd	<b>Ansawdd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymddangosiad</li> <li>• Gwead</li> <li>• Arogl</li> <li>• Blas</li> <li>• Effeithiau anweladwy</li> <li>• Cynnwys maethol</li> </ul>	Dylai dysgwyr ddeall bod micro-organebau yn cael effeithiau negyddol a chadarnhaol ar ansawdd bwyd ac esbonio sut mae'r newidiadau hynny'n digwydd. Dylai dysgwyr ystyried pob micro-organeb yn MPA1.1 a chyfeirio at eu priodweddau.
	MPA1.4 asesu sut mae <b>dulliau cadw bwyd</b> yn atal twf micro-organebau	<b>Dulliau cadw</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhewi</li> <li>• Cyffeithio</li> <li>• Sychu</li> <li>• Piclo</li> <li>• Halltu</li> <li>• Ychwanegion</li> </ul>	Dylai dysgwyr feddu ar ddigon o ddealltwriaeth i lunio barn am allu'r dulliau cadw i atal twf organebau yn MPA1.1

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreiffio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
<b>DD2</b> deall sut y gall bwyd achosi salwch	<b>MPA2.1</b> esbonio sail ffisiolegol anoddefgarwch bwyd	<b>Anoddefgarwch bwyd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anoddefgarwch lactos</li> <li>• Anoddefgarwch gwenith</li> <li>• Cemegion mewn bwydydd</li> </ul>	Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r mathau o anoddefgarwch bwyd a'u hachosion ffisiolegol. Gallai cemegion mewn bwydydd gynnwys caffeine, salisyladau, monosodiwm-gltamad, a chemegion naturiol fel histamin.
	<b>MPA2.2</b> esbonio sail ffisiolegol <b>alergeddau bwyd</b>	<b>Alergeddau bwyd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wyau</li> <li>• Llaeth</li> <li>• Soia</li> <li>• Gwenith</li> <li>• Cnau mwnci</li> <li>• Cramenogion</li> <li>• Cnau</li> <li>• Pysgod</li> </ul>	Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r mathau o alergeddau bwyd a'u hachosion ffisiolegol, yn enwedig mewn perthynas ag adwaith imiwnolegol.
	<b>MPA2.3</b> esbonio sail ffisiolegol <b>gwenwyn bwyd</b>	<b>Gwenwyn bwyd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bwydydd yr effeithir arnynt</li> <li>• Bacteria a firysau achosol</li> <li>• Effeithiau ffisiolegol</li> </ul>	Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r bwydydd sy'n peri risg uchel o wenwyn bwyd, achosion ac effeithiau ffisiolegol.
	MPA2.4 disgrifio <b>symptomau</b> salwch a achoswyd gan fwyd	<b>Symptomau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Symptomau gweladwy</li> <li>• Symptomau anweladwy</li> <li>• Faint o amser sy'n mynd heibio cyn i'r symptomau ymddangos</li> <li>• Hyd y symptomau</li> <li>• Lefel yr haint</li> </ul>	Dylai dysgwyr feddu ar wybodaeth am symptomau sy'n gysylltiedig ag anoddefgarwch bwyd, alergeddau bwyd a gwenwyn bwyd. Dylent fod yn gallu disgrifio sut y caiff symptomau eu canfod a sut y gwneir diagnosis o'r canlyniadau.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<b>Bydd y dysgwr yn:</b>	<b>Gall y dysgwr:</b>		
<b>DD3</b> deall sut y caiff diogelwch bwyd ei reoli mewn gwahanol sefyllfaoedd	<b>MPA3.1</b> disgrifio peryglon diogelwch bwyd mewn gwahanol <b>amgylcheddau</b>	<b>Amgylcheddau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Paratoi</li> <li>• Coginio</li> <li>• Gweini</li> <li>• Storio</li> <li>• Cludo</li> <li>• Awyr agored</li> <li>• Dros dro</li> </ul>	Dylai dysgwyr ystyried amrywiaeth o amgylcheddau gwahanol a'r mathau o beryglon a all fodoli ym mhob un.
	MPA3.2 Asesu'r risg i ddiogelwch bwyd mewn gwahanol amgylcheddau	<b>Risg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y tebygolrwydd o berygl</li> <li>• Potensial y perygl i niweidio</li> <li>• Yr unigolion y mae hyn yn debygol o effeithio arnynt</li> <li>• Y bwydydd y mae hyn yn debygol o effeithio arnynt</li> </ul>	Dylai dysgwyr feddu ar ddigon o wybodaeth i wahaniaethu rhwng perygl a risg. Dylai dysgwyr feithrin digon o ddealltwriaeth o risg i lunio barn resymedig wedi'i hategu gan dystiolaeth.
	MPA3.3 esbonio'r <b>mesurau rheoli</b> a ddefnyddir i leihau risgiau diogelwch bwyd	<b>Mesurau rheoli</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arferion hylendid da</li> <li>• Atal croeshalogi</li> <li>• Gwaredu gwastraff</li> <li>• Dilyn deddfwriaeth diogelwch bwyd</li> <li>• Glanhau'n effeithiol</li> <li>• Storio bwyd yn effeithiol</li> </ul>	Dylai dysgwyr ystyried risgiau a aseswyd yn MPA3.2 a deall sut y gellir lleihau pob un.
	MPA3.4 cyfiawnhau cynigion ar gyfer mesurau rheoli mewn gwahanol amgylcheddau	<b>Cyfiawnhau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno'r achos dros weithredu</li> <li>• Defnyddio tystiolaeth i ategu'r cynnig</li> </ul>	Mae angen i ddysgwyr ddysgu sut i gyfiawnhau drwy ddefnyddio iaith a thystiolaeth briodol.



## Asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n allanol. Gwneir hyn drwy aseiniad sy'n cael ei lunio gan CBAC, ei gwblhau gan ddysgwyr o dan amodau rheoledig iawn a'i farcio gan CBAC.

Mae'r fanyleb ar gyfer yr asesiad allanol fel a ganlyn

- Caiff aseiniad ei lunio bob blwyddyn academiaidd ac ni ellir ei agor cyn Mai 1<sup>af</sup> bob blwyddyn
- Mae'n asesiad **wyth** awr o hyd sy'n cael ei amseru a'i oruchwylio
- Ni chaniateir i ddysgwyr gydweithio yn ystod yr adegau pan fyddant yn gweithio ar dasgau asesu
- Bydd yr aseiniad sy'n cael ei bennu'n allanol yn nodi'r adnoddau y mae'n rhaid eu darparu i bob dysgwr
- Mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau'r asesiad o fewn tair wythnos i'r dyddiad y caiff ei agor gan y ganolfan
- Mae'n rhaid i ganolfannau sicrhau, pan fydd dysgwyr yn cwblhau'r asesiad allanol mewn mwy nag un sesiwn, fod prosesau ar waith i sicrhau na allant gael gafael ar eu tystiolaeth rhwng y sesiynau hynny
- Rhaid cofnodi pob sesiwn. Darperir taflen amser gan CBAC at y pwrpas hwn.
- Bydd pob asesiad yn ymdrin â'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Bydd yn nodi pa feini prawf asesu sy'n cael eu targedu ar gyfer yr asesiad
- Bydd pob asesiad allanol yn gofyn i'r dysgwr ddod â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddysgwyd drwy gydol yr uned ynghyd, gan wneud cysylltiadau rhyngddynt, a'u cymhwyso drwy ymateb i'r wybodaeth a ddarperir mewn senario. Bydd y senario yn ymwneud â sefyllfa diogelwch bwyd. Bydd yn gofyn i ddysgwyr ddadansoddi'r wybodaeth a llunio barn am y risg bosibl i ddiogelwch bwyd.
- Bydd CBAC yn llunio cynllun marcio a ddefnyddir fel sail ar gyfer marcio'r asesiad allanol
- Rhoddir gradd Llwyddiant Lefel 3, Teilyngdod Lefel 3 a Rhagoriaeth Lefel 3 i'r asesiad
- Mae'n rhaid dogfennu'r trefniadau ar gyfer goruchwylio ac amseru'r unedau sy'n cael eu hasesu'n allanol yn llawn yn unol â gofynion CBAC.

## Canllawiau Cyflwyno

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cydnabod bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinir ganddynt yn berthnasol yn alwedigaethol. Mae sawl ffordd y gellir cyflawni hyn:

- Trefnu ymweliadau penodol â sefydliadau preifat a/neu gyhoeddus sy'n paratoi ac yn gweini bwyd. Er enghraifft, mewn cegin ysbyty lle mae pwysigrwydd diogelwch bwyd yn hollbwysig ac yn yr un modd mewn bwyty preifat. Gallai dysgwyr gymharu'r rheolaethau diogelwch sydd ar waith ym mhob amgylchedd
- Trefnu siaradwyr o sefydliadau sy'n monitro diogelwch bwyd, fel Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd Lleol neu gynrychiolwyr o'r Asiantaeth Safonau Bwyd
- Datblygu gweithgareddau dysgu gyda sefydliadau sy'n gorfod cadw at reolaethau o ran diogelwch bwyd, er enghraifft gweithio gyda staff arlwyo o ysgol gynradd leol
- Byddai cynnig profiad gwaith o fewn sefydliadau sy'n cynhyrchu, yn paratoi a/neu'n gweini bwyd hefyd yn rhoi profiad ymarferol i ddysgwyr o bwysigrwydd diogelwch bwyd yn y diwydiant. Gallai lleoliad o'r fath fod yn rhan o gynllun lleoliad gwaith arfaethedig ar gyfer y cwrs.

I ddilyn, ceir enghreifftiau o ddulliau cyflawni y gellid eu defnyddio i wella'r ffordd o ddeall a dysgu am y mesurau rheoli a ddylai fod ar waith, mewn amgylcheddau gwahanol, er mwyn sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta.

### Enghraifft 1

Gellid gofyn i gartref nyrsio lleol sy'n paratoi ac yn gweini bwyd i amrywiaeth eang o gleientiaid, y mae gan lawer ohonynt faterion sy'n gysylltiedig ag iechyd, ddarparu gweithgarwch ar sail problemau i ddysgwyr. Er enghraifft, gellid gofyn i ddysgwyr ddylunio taflen sefydlu i gyflogeion dan hyfforddiant yn y cartref nyrsio. Mae angen i'r daflen roi esboniad o sut y gall bwyd achosi salwch, gan ystyried anoddefgarwch bwyd, alergeddau bwyd a gwenwyn bwyd. Yna dylai'r daflen gynnwys adran yn benodol ar gyfer y cyflogeion hynny a fydd yn paratoi ac yn gweini bwyd yn y cartref nyrsio, gan ddisgrifio peryglon diogelwch bwyd a mesurau rheoli a ddylai fod ar waith. Gallai'r Rheolwr Gofal a/neu gyflogeion roi adborth i ddysgwyr ar eu taflenni.

### Enghraifft 2

Gallai dysgwyr gynnal gweithgarwch chwarae rôl yn seiliedig ar achosion o haint a gludir mewn bwyd, a gafodd eu holrhain i fwyty penodol. Byddai dysgwyr gwahanol neu grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn ymgymryd â rolau gwahanol, fel swyddogion yr amgylchedd lleol, staff yn y bwyty, perchnogion y bwyty ac ati. Byddai angen i bob grŵp asesu sut yr achoswyd yr achosion a datblygu cynllun gweithredu i atal unrhyw achosion pellach. Gallai Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd roi ffeithiau i ddysgwyr ynglŷn â'r bwyty, fel y math o fwyd a oedd yn cael ei baratoi, yr amodau storio ac ati ac adolygu eu syniadau.

### Enghraifft 3

Gallai dysgwyr weithio ar broject ar gyfer sefydliad prosesu bwyd sy'n ymchwilio i briodweddau gwrthficrobaidd ychwanegyn bwyd penodol. Gallai dysgwyr ymchwilio i raddau'r twf microbaidd ar blatiau agar a baratowyd gydag ystod o ychwanegion bwyd a'u cymharu. (Os yw'n bosibl, dylai dysgwyr baratoi eu platiau eu hunain). Fel arall, gallai dysgwyr brofi pa mor ffres yw samplau llaeth a gyflenwir i fanwerthwr mawr. Bydd dysgwyr yn paratoi platiau gan ddefnyddio techneg aseptic ar gyfer samplau llaeth gwahanol ac yn gadael pob plât mewn cyflwr safonol. Ar ôl pum diwrnod bydd dysgwyr yn dadansoddi graddau'r twf microbaidd ar bob plât ac yn nodi unrhyw wahaniaethau.

## Creu cysylltiadau

Mae'r sefydliadau y gellid cysylltu â hwy i ddarparu help yn cynnwys y canlynol:

- Cynhyrchwyr bwyd lleol
- Manwerthwyr bwyd lleol
- Sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu bwyd fel
  - cartrefi nyrsio
  - meithrinfeydd plant
  - ysbytai lleol
  - ysgolion lleol.

## Gwefannau

Y Gymdeithas ar gyfer Microbioleg Gyffredinol: [www.microbiologyonline.org.uk](http://www.microbiologyonline.org.uk)

Dirywiad bwyd:

<http://culinaryarts.about.com/od/safetysanitation/a/bacteria.htm>

Cadw bwyd:

[http://en.wikipedia.org/wiki/Food\\_preservation](http://en.wikipedia.org/wiki/Food_preservation)

<http://science.howstuffworks.com/innovation/edible-innovations/food-preservation.htm>

Alergeddau Bwyd ac anoddefiadau bwyd:

<http://www.nhs.uk/conditions/food-allergy/Pages/Intro1.aspx>

<http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/publication/allergyfactsheetcoeliac0308.pdf>

Gwenwyn bwyd:

<http://www.stopthestomachflu.com/what-is-food-poisoning>

<http://www.nhs.uk/news/2011/11November/Pages/loyd-grossman-curry-sauce-botulism-recall.aspx>

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, strategaeth clefydau a gludir mewn bwyd:

<http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/fds2015.pdf>

Cyngor ar ddiogelwch bwyd, GIG:

<http://www.nhs.uk/livewell/homehygiene/pages/homehygienehub.aspx>

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd: Hylendid bwyd:

<http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/publication/hygienebooklet.pdf>

<b>Uned 3</b>	<b>Arbrofi er mwyn Datrys Problemau Cynhyrchu Bwyd</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad</b>	90

### **Nod a phwrpas**

Nod yw uned hon yw sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio eu dealltwriaeth o briodweddau bwyd er mwyn cynllunio a chynnal arbrofion. Byddai canlyniadau arbrofion yn cael eu defnyddio i gynnig opsiynau i ddatrys problemau cynhyrchu bwyd.

### **Cyflwyniad i'r uned**

Pam mae hufen iâ yn rhewi? Sut ydw i'n atal hufen rhag troi'n gaws? Sut ydw i'n gwneud i gacennau godi? Pam mae dresin salad yn gwahanu?

Gwneud defnydd o'r ffordd y mae rhai bwydydd yn newid er mwyn creu seigiau newydd fu sail datblygiad bwyd. Bydd cynhyrchwyr bwyd a phen-gogyddion yn datblygu seigiau newydd a diddorol drwy arbrofi gyda phriodweddau bwyd. Heddiw, mae dealltwriaeth hyd yn oed yn well o egwyddorion gwyddonol bwyd yn rhoi amrywiaeth o opsiynau i ben-gogyddion wrth iddynt feddwl am fwy a mwy o seigiau a syniadau arloesol. Bellach, mae unigolion, pen-gogyddion a chyflogeion yn y diwydiant bwyd yn gallu cynhyrchu seigiau nad ydynt yn defnyddio cynhwysion neu ddulliau safonol, ond sy'n rhoi dewisiadau bwyd diddorol a chyffrous i'r cwsmer.

Bydd yr uned hon yn rhoi dealltwriaeth i chi o briodweddau gwyddonol bwyd a sut y mae'r priodweddau hyn yn cyfrannu at y newidiadau sy'n digwydd mewn bwyd. Byddwch hefyd yn manteisio ar yr hyn a ddysgwyd gennych yn **Uned 1: Diwallu Anghenion Maethol Grwpiau Penodol** ac **Uned 2: Sicrhau bod Bwyd yn Ddiogel i'w Fwyta**. Byddwch yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd i gynllunio a chynnal arbrofion gyda mathau gwahanol o fwyd. Drwy gynnal yr arbrofion hyn, byddwch yn gallu cynnig opsiynau i ddatrys problemau cynhyrchu bwyd.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
<b>DD1</b> deall priodweddau gwyddonol bwyd	<b>MPA1.1</b> esbonio sut y gellir <b>newid</b> priodweddau bwyd	<b>Wedi newid</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadnatureiddio</li> <li>• Gelatineiddio</li> <li>• Carameleiddio</li> <li>• Emwlseiddio</li> <li>• Solau-gelïau</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth ddamcaniaethol ac ymarferol o briodweddau gwyddonol bwyd a sut y caiff y rhain eu newid drwy'r prosesau a nodwyd.</p> <p>Bydd dysgwyr yn manteisio ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt o'r blaen i atgyfnerthu eu dealltwriaeth.</p>
	<b>MPA1.2</b> esbonio <b>newidynnau</b> sy'n effeithio ar briodweddau ffisegol bwyd	<b>Newidynnau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tymheredd</li> <li>• Adweithiau cemegol</li> <li>• Trin <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Troi</li> <li>○ Curo</li> <li>○ Chwisgio</li> </ul> </li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o effaith y newidynnau rhestredig ar briodweddau bwyd.</p> <p>Bydd dysgwyr yn manteisio ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt o'r blaen i atgyfnerthu eu dealltwriaeth.</p>
<b>DD2</b> gallu ymchwilio'n wyddonol i newidiadau i fwyd	<b>MPA2.1</b> pennu <b>meini prawf llwyddiant</b> mewn perthynas ag ymchwiliadau gwyddonol	<b>Meini prawf llwyddiant</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymharu â bwyd a wneir gyda chynhwysion "safonol"</li> <li>• Ymddangosiad</li> <li>• Arogl</li> <li>• Blas</li> <li>• Gwead</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr ddysgu sut i ysgrifennu meini prawf llwyddiant sy'n glir, yn fesuradwy ac yn briodol i'r ymchwiliad gwyddonol.</p> <p>Bydd dysgwyr yn manteisio ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt o'r blaen i bennu meini prawf llwyddiant.</p>
	<b>MPA2.2</b> sicrhau <b>deilliannau</b> o ymchwiliadau gwyddonol	<b>Deilliannau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dilys</li> <li>• Dibynadwy</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr gael eu haddysgu sut i gynnal ymchwiliadau gwyddonol sy'n arwain at ddeilliannau dilys a dibynadwy a sut i gadarnhau dilysrwydd a dibynadwyedd.</p>

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
	<b>MPA2.3</b> cofnodi deilliannau gwaith ymchwiliol	<b>Cofnodi deilliannau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fformat ar gyfer cofnodi deilliannau</li> <li>• Eglurder cofnodion</li> <li>• Cywirdeb cofnod</li> </ul>	Mae angen i ddysgwyr allu llunio dogfennaeth ar gyfer cofnodi deilliannau; sicrhau bod y ddogfennaeth yn caniatáu ar gyfer eglurder a chywirdeb y cofnodi. Mae angen i ddysgwyr hefyd ddysgu sut i gasglu data cywir.
	<b>MPA2.4</b> prosesu data	<b>Dadansoddi data</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dulliau ystadegol</li> <li>• Defnydd o TGCh</li> </ul> <b>Gwerthuso data</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysondeb data</li> <li>• Tuedd mewn data</li> <li>• Dilysrwydd data</li> </ul>	Mae prosesu data'n cynnwys dadansoddi a gwerthuso'r data a gasglwyd. Mae hefyd yn cynnwys trin data, gan ddefnyddio technegau mathemategol ac ystadegol. Dylai dysgwyr ddysgu sut i brosesu data gan ddefnyddio a heb ddefnyddio meddalwedd TGCh.
	<b>MPA2.5</b> adolygu addasrwydd y dulliau ymchwilio	<b>Addasrwydd y dulliau ymchwilio</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhinweddau</li> <li>• Cyfyngiadau</li> </ul>	Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o dulliau gwahanol o gynnal ymchwiliadau gwyddonol a sut i lunio barn am addasrwydd y dulliau at y pwrpas.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
DD3 gallu datrys problemau cynhyrchu bwyd	<b>MPA3.1</b> dadansoddi sefyllfaoedd cynhyrchu bwyd	<b>Mathau o Broblemau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim cynhwysion</li> <li>• Dim cyfleusterau coginio</li> <li>• Amodau amgylcheddol</li> <li>• Anghenion y cwsmer</li> </ul>	Dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o sefyllfaoedd cynhyrchu bwyd fel y gallant ddadansoddi gwybodaeth i nodi problemau penodol. <i>Bydd dysgwyr yn manteisio ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt o'r blaen i ddadansoddi sefyllfaoedd</i>
	<b>MPA3.2 cynnig</b> opsiynau ymarferol i ddatrys problemau cynhyrchu bwyd	<b>Cynnig</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwneud awgrymiadau <ul style="list-style-type: none"> <li>○ O ddulliau a ddefnyddir gan bengo-gogyddion arloesol</li> <li>○ O dechnolegau newydd</li> </ul> </li> <li>• Manteision/anfanteision opsiynau gwahanol</li> <li>• Defnyddio iaith, syniadau a modelau gwyddonol</li> </ul>	Dylai dysgwyr ddatblygu sgiliau cyfathrebu i wneud cynigion. <i>Dylent ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt o'r blaen i ategu cynigion a wneir.</i>
	<b>MPA3.3 cyfiawnhau</b> opsiynau arfaethedig yn <b>wyddonol</b>	<b>Cyfiawnhau opsiynau yn wyddonol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddio tystiolaeth ymchwiliol wreiddiol ategol</li> <li>• Defnyddio tystiolaeth eilaidd ategol</li> </ul>	Dylai dysgwyr feithrin digon o ddealltwriaeth i ddefnyddio gwybodaeth a data gwreiddiol ac eilaidd i gyfiawnhau cynigion a wneir.

Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
DD1 Deall priodweddau gwyddonol bwyd	<b>MPA1.1</b> Esbonio sut y gellir newid priodweddau bwyd	Ystyrir amrywiaeth o briodweddau bwyd perthnasol. Mae'r esboniadau yn cynnwys rhesymu a chywirdeb prin.  1	Ystyrir amrywiaeth o briodweddau bwyd perthnasol. Mae'r esboniadau wedi'u rhesymu ac yn gywir ar y cyfan.  2	Ystyrir amrywiaeth o briodweddau bwyd perthnasol. Mae'r esboniadau yn cynnwys rhesymu da ac maent yn gywir.  3
	<b>MPA1.2</b> esbonio newidynnau sy'n effeithio ar briodweddau ffisegol bwyd	Ystyrir amrywiaeth o newidynnau sy'n briodol ar y cyfan. Mae'r esboniadau yn gywir ar y cyfan gyda rhywfaint o resymu prin.  1	Ystyrir amrywiaeth o newidynnau priodol. Mae'r esboniadau wedi'u rhesymu ac yn gywir ar y cyfan.  2	Ystyrir amrywiaeth o newidynnau priodol. Mae'r esboniadau yn cynnwys rhesymu da ac maent yn gywir.  3



Deiliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
DD2 Gallu ymchwilio'n wyddonol i newidiadau i fwyd	<b>MPA2.1</b> pennu meini prawf llwyddiant mewn perthynas ag ymchwiliadau gwyddonol	Pennir amrywiaeth o feini prawf llwyddiant, y mae rhai ohonynt yn glir ac yn berthnasol.  1	Pennir amrywiaeth o feini prawf llwyddiant sy'n glir ac yn berthnasol.  2	Pennir amrywiaeth o feini prawf llwyddiant sy'n glir ac yn berthnasol. Mae meini prawf llwyddiant yn rhai CAMPUS.  3
	<b>MPA2.2</b> sicrhau deilliannau o ymchwiliadau gwyddonol	Ceir amrywiaeth o ddeilliannau o ymchwiliadau gwyddonol. Ceir rhai deilliannau dilys a dibynadwy.  1	Ceir amrywiaeth o ddeilliannau dilys a dibynadwy o ymchwiliadau gwyddonol.  2	Ceir y deilliannau gofynnol o ymchwiliadau gwyddonol sy'n ddilys ac yn ddibynadwy.  3
	AC2.3 cofnodi deilliannau gwaith ymchwiliol	Cofnodir deilliannau gwaith ymchwiliol gan ddefnyddio dogfennaeth sy'n addas at y pwrpas ar y cyfan. Mae'r gwaith cofnodi yn gywir ar y cyfan.  1	Cofnodir deilliannau gwaith ymchwiliol gan ddefnyddio dogfennaeth sy'n addas at y pwrpas. Mae'r hyn a gofnodir yn gywir gyda rhai mân hepgoriadau.  2	Cofnodir deilliannau gwaith ymchwiliol yn gywir gan ddefnyddio dogfennaeth sy'n addas at y pwrpas.  3
	<b>MPA2.4</b> prosesu data	Caiff y rhan fwyaf o'r data a gesglir eu dadansoddi a'u hadolygu. Gall fod rhai hepgoriadau. Gall fod rhai gwallau yn perthyn i'r casgliadau a gyflwynir.  1	Caiff y data a gesglir eu dadansoddi a'u gwerthuso. Gall fod rhai hepgoriadau. Mae'r casgliadau a gyflwynir yn ddilys ac yn ddibynadwy ar y cyfan. Gall fod rhai anghywirdebau.  2	Caiff y data a gesglir eu dadansoddi a'u gwerthuso. Cyflwynir casgliadau dilys a dibynadwy.  3
	<b>MPA2.5</b> adolygu addasrwydd y dulliau ymchwilio	Adolygir y dulliau ymchwilio a chyflwynir casgliadau syml. Prin yw'r dystiolaeth a gyflwynir i ategu'r casgliadau.  1	Adolygir y dulliau ymchwilio a chyflwynir rhai casgliadau sydd wedi'u rhesymu. Defnyddir peth tystiolaeth i ategu casgliadau.  2	Adolygir dulliau ymchwilio a chyflwynir casgliadau clir sydd wedi'u rhesymu'n dda. Defnyddir tystiolaeth i ategu casgliadau.  3

Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
<b>DD3</b> Gallu datrys problemau cynhyrchu bwyd	<b>MPA3.1</b> Dadansoddi sefyllfaoedd cynhyrchu bwyd	Yn dadansoddi gwybodaeth sy'n ymwneud â sefyllfa cynhyrchu bwyd. Yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r materion allweddol er mwyn nodi problem yn ddilys.	Yn dadansoddi gwybodaeth sy'n ymwneud â sefyllfa cynhyrchu bwyd. Nodir materion allweddol ac awgrymir problemau.	Yn dadansoddi gwybodaeth sy'n ymwneud â sefyllfa cynhyrchu bwyd. Caiff materion eu categoreiddio er mwyn nodi problemau'n ddilys.
		1	2	3
	<b>MPA3.2</b> Cynnig opsiynau ymarferol i ddatrys problemau cynhyrchu bwyd	Cynigir amrywiaeth o opsiynau. Mae rhai ohonynt yn ymarferol. Rhoddir rhywfaint o ystyriaeth i'r rhan fwyaf o'r opsiynau a gyflwynir. Rhywfaint o ddefnydd o iaith dechnegol briodol, gyda rhai mân wallau.	Cynigir amrywiaeth o opsiynau ymarferol. Mae'r defnydd o iaith dechnegol yn briodol ar y cyfan. Gall fod mân wallau yn y defnydd, ond ni fydd y rhain yn gwneud yr ystyr yn llai clir.	Cynigir amrywiaeth o opsiynau ymarferol ystyrllon. Mae'r defnydd o iaith dechnegol yn gyson briodol.
		1	2	3
	<b>MPA3.3</b> Cyfiawnhau opsiynau arfaethedig yn wyddonol	Mae'r gwaith ymarferol yn mynd i'r afael â rhai o'r materion ac yn cael ei wneud yn effeithiol ac yn effeithlon ar y cyfan. Caiff casgliadau clir ond sylfaenol eu gwneud. Mae'r cyfiawnhad yn dangos tystiolaeth o ddefnyddio peth dysgu blaenorol.	Mae'r gwaith ymarferol yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion ac yn cael ei wneud yn effeithiol ac yn effeithlon. Gwneir casgliadau clir, eithaf manwl. Mae'r cyfiawnhad wedi'i resymu'n dda, gan ddefnyddio peth tystiolaeth a dysgu blaenorol.	Mae'r gwaith ymarferol yn mynd i'r afael â'r holl faterion ac yn cael ei wneud yn hynod effeithiol ac effeithlon. Mae'r holl gasgliadau yn fanwl ac yn gwneud defnydd da o iaith dechnegol. Mae'r cyfiawnhad wedi'i resymu'n dda ac yn seiliedig ar ymchwiliad gwyddonol a dysgu blaenorol.
		1	2	3

## Asesu

### Gofynion ar gyfer canolfannau

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol. Mae'n rhaid cynnal pob asesiad o dan amodau asesu dan reolaeth a phennwyd rheolaethau ar gyfer pob cam o'r broses asesu: pennu tasgau, cyflawni tasgau a marcio tasgau.

### Pennu tasgau

Er mwyn helpu canolfannau i asesu'r uned hon, mae CBAC wedi darparu aseiniad enghreifftiol ynghyd â chanllawiau a meini prawf sy'n gysylltiedig â'i ddefnyddio. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys tasgau sy'n gofyn am ddull gweithredu cymhwysol a chyfannol. Cynllunnir yr aseiniadau enghreifftiol fel y gellir eu defnyddio fel ag y maent neu fel y gall canolfannau eu haddasu i gyfateb i anghenion y sector lleol a defnyddio'r adnoddau lleol sydd ar gael i'r ganolfan. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys gwybodaeth am ba agweddau ar yr aseiniad y gellir eu haddasu.

### Pennu tasgau

Fel rhan o'r broses o gyflawni tasgau, pennir rheolaethau ar gyfer yr agweddau allweddol, sef amser, adnoddau, goruchwyliaeth a chydweithio.

- Caiff yr amser y dylid ei gymryd ei ddynodi yn yr aseiniad enghreifftiol
- Rhaid darparu adnoddau sy'n rhoi cyfleoedd teg a llawn i'r dysgwyr weld y meini prawf ar gyfer marcio ac sy'n briodol o ran yr asesiad a gofynion yr uned. Nodir manylion rheolaethau penodol yn yr asesiad enghreifftiol
- Rhoddir cyfarwyddiadau ar y gofynion mewn perthynas â goruchwyliaeth uniongyrchol yn yr aseiniad enghreifftiol
- Rhoddir canllawiau ar gydweithio, a lle y'i caniateir, â'r aseiniad enghreifftiol.

O fewn aseiniadau enghreifftiol CBAC, mae'n bosibl y gwneir awgrymiadau o ran amseru rhai tasgau unigol o fewn y cyfnod asesu cyffredinol. Pwrpas hyn yw rhoi canllawiau ychwanegol i ganolfannau er mwyn helpu i reoli'r dasg asesu.

### Marcio tasgau

Rhaid i'r ganolfan farcio tystiolaeth asesu dysgwr yn erbyn y bandiau perfformiad ar gyfer pob maen prawf asesu. Mae'r bandiau perfformiad yn disgrifio i ba raddau y mae'r dysgwr wedi bodloni'r maen prawf asesu.

### Canllawiau Cyflwyno

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cydnabod bod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinir ganddynt yn berthnasol yn alwedigaethol. Mae sawl ffordd y gellir cyflawni hyn:

- Trefnu ymweliadau penodol â sefydliadau sy'n paratoi, yn cynhyrchu neu'n gweithgynhyrchu bwyd neu gynnyrch bwyd lle y gellid gweld ac arsylwi ar gyfyngiadau dylunio (fel oes silff)
- Trefnu sgysiau gan siaradwyr, e.e. gellid gofyn i Ben-gogydd Gweithredol o westy lleol drafod y camau yn natblygiad rysait newydd ar gyfer bwydlen y gwesty
- Cynnal gweithgareddau yn seiliedig ar senario yn y gwaith fel creu amrywiaeth newydd a chyffrous o fwydydd parti i blant yn cynnwys sefydlogyddion neu liwiau naturiol, ar gyfer cadwyn o archfarchnadoedd

- Darparu profiad gwaith o fewn gweithle sy'n addasu bwydydd. Gall hyn fod mewn sefydliad prosesu bwyd lle y gallai dysgwyr weithio yn yr adran ymchwil a datblygu.
- Defnyddio astudiaethau achos a ddatblygwyd gan sefydliadau sy'n paratoi, yn cynhyrchu neu'n gweithgynhyrchu bwyd neu gynnyrch bwyd.

I ddilyn, ceir enghreifftiau o dulliau cyflwyno y gellid eu defnyddio i wella'r dysgu a deall sut y gellir defnyddio canlyniadau arbrofion i gynnig opsiynau i ddatrys problemau cynhyrchu bwyd.

### **Enghraifft 1**

Gallai dysgwyr weithio gyda sefydliad arlwygo mawr y gofynnwyd iddo dendro am y gwaith o arlwygo ar gyfer digwyddiad mawr, fel cinio gala ar gyfer noddwyr y Grand Prix. Mae'r trefnydd am gael cynhyrchion cartref o ansawdd uchel i gyd ond mae'r rheolwr arlwygo yn poeni ynghylch sut y gellir sicrhau y caiff sawsiau o ansawdd uchel eu creu. Bydd angen i ddysgwyr ystyried y newidynnau sy'n gysylltiedig â chreu sawsiau y gellir eu gweini fel rhan ychwanegol o'r saig a chynnal arbrofion i benderfynu pa opsiynau a fyddai'n ddilys. Byddant yn cyflwyno eu casgliadau i dîm sy'n paratoi'r tendr.

### **Enghraifft 2**

Mae rheolwr a chogydd cartref nyrsio lleol yn poeni bod y seigiau cig a weinir ganddynt yn amrywio o ran breuder. Maent wedi gofyn i ddysgwyr helpu i gynllunio a pharatoi amrywiaeth o seigiau prif gwrs gan ddefnyddio cig a fyddai'n apelio'n gyson at eu cleientiaid ac yn gwella'r ddarpariaeth bresennol. Gan weithio mewn timau, byddai dysgwyr yn cynllunio ac yn arbrofi gan weithio gyda mathau gwahanol o gig a dulliau coginio. Byddent yn dadansoddi ac yn dehongli eu canlyniadau ac yn trafod cynigion â chynrychiolwyr y cartref nyrsio.

### **Enghraifft 3**

Mae manwerthwr archfarchnad cenedlaethol wedi nodi bod galw am bwdinau parod ar gyfer feganiaid. Mae'r manwerthwr wedi gofyn i gynhyrchwyr bwyd fynegi diddordeb i ateb y galw er mwyn datblygu cynhyrchion priodol a'u cyflwyno i'r farchnad gyda chefnogaeth y gadwyn fanwerthu. Gellid gofyn i ddysgwyr gwblhau'r mynegiant o ddiddordeb. Byddai hyn yn gofyn iddynt gynllunio a chynnal arbrofion a defnyddio eu canlyniadau i ddatblygu syniadau. Byddent yn rhoi disgrifiadau o'r pwdinau gwreiddiol a gwahanol y byddent yn eu creu yn eu mynegiannau o ddiddordeb. Gallai dysgwyr gyflwyno eu syniadau i gynrychiolwyr archfarchnadoedd, gan ofyn iddynt am adborth.

### **Creu cysylltiadau**

Mae'r sefydliadau y gellid cysylltu â hwy i ddarparu help yn cynnwys y canlynol:

- Sefydliadau preifat: cynhyrchwyr bwyd cenedlaethol a lleol, sefydliadau lleol sy'n paratoi bwyd i gleientiaid sydd ar ddeiet arbenigol
- Sefydliadau cyhoeddus: ysbytai lleol ac ysgolion lleol sy'n gorfod cynhyrchu bwyd sy'n addas i grwpiau penodol o gleientiaid
- Amrywiaeth o sefydliadau sy'n cynrychioli'r agweddau gwahanol ar y diwydiant bwyd, yn ogystal â'r cyngor sgiliau sector ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu bwyd a diod (Improve: <http://improveltd.co.uk/> ).

## Adnoddau

### Llyfrau

McGee, H. 2004) *Food and Cooking: An Encyclopedia of Kitchen Science, History and Culture*: Hodder & Stoughton: 2004

Barham P. *The Science of Cooking*. Springer-Verlag 2001

Blumenthal H. *Heston Blumenthal at home*: Bloomsbury Publishing: Hydref 2011

Joachim D a Schloss A. *The Science of good food*: Robert Rose Inc: Hydref 2008

### Gwefannau

[http://www.visionlearning.com/library/module\\_viewer.php?mid=62](http://www.visionlearning.com/library/module_viewer.php?mid=62)

<http://www.exploratorium.edu/cooking/icooks/11-03-03.html>

<http://www.exploratorium.edu/cooking/eggs/eggscience.html>

[http://en.wikipedia.org/wiki/Gelatin\\_dessert](http://en.wikipedia.org/wiki/Gelatin_dessert)

<http://www.food-info.net/uk/colour/caramel.htm>

<http://www.foodnetwork.com/how-to/how-to-emulsify-liquids/index.html>

[http://www.rsc.org/Education/Teachers/Resources/kitchenchemistry/00\\_video.htm](http://www.rsc.org/Education/Teachers/Resources/kitchenchemistry/00_video.htm)

<http://sam.davyson.com/a2/chemistry/fssn/>

<http://foodtech-llangefni.co.uk/en/>

<http://www.thefatduck.co.uk/Heston-Blumenthal/>

Sefydlwyd y ganolfan technoleg bwyd yng Nghymru yn 1999 er mwyn helpu gyda'r gwaith hirdymor o ddatblygu'r gallu i brosesu a chynhyrchu bwyd yn y Gogledd a ledled y DU. Yn ddiweddar, mae'r ganolfan wedi bod yn gysylltiedig â dylunio a datblygu grawnfwyd gweithredol, ac mae ei fanylion yn llunio astudiaeth achos ddiddorol: [http://foodtech-llangefni.co.uk/en/news\\_events/news/details/?entry\\_id=85](http://foodtech-llangefni.co.uk/en/news_events/news/details/?entry_id=85)

<b>Uned 4</b>	<b>Materion Cyfredol o ran Gwyddor Bwyd a Maeth</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad</b>	90

### Nod a phwrpas

Drwy gydol yr uned hon, byddwch yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i gynllunio, cynnal a chyflwyno project ymchwil ar faterion cyfredol sy'n gysylltiedig â gwyddor bwyd a maeth. Gallai hyn fod o safbwynt defnyddiwr, gweithgynhyrchedd bwyd, arlwywr a/neu o safbwynt llunio polisïau.

### Cyflwyniad i'r uned

A yw pryddau parod darbodus sy'n cael eu masgynhyrchu yn diwallu anghenion unigolion? Pam mae'r gwasanaeth arlwyyo mewn digwyddiadau fel gwyliau cerdd a digwyddiadau chwaraeon mor gyfyngedig ac afiach fel arfer? Pam mae arlwywyr contract yn cael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau fel te angladdau neu bwffe mewn partiön pen-blwydd i bobl 18 oed pan fyddai teuluoedd wedi gwneud hyn eu hunain flynyddoedd yn ôl. A ddylai sgiliau coginio fod yn orfodol mewn ysgolion? Faint yn fwy y bydd defnyddwyr yn ei dalu am fwyd organig? Pa mor bwysig yw deiet cynaliadwy, teg a fforddiadwy? Faint mae'r pecynnu yn effeithio ar ymddygiad prynu defnyddwyr? A yw tueddiadau o ran deiet yn effeithiol? A yw labeli bwyd yn gamarweiniol? Sut mae'r cyfryngau yn dylanwadu ar ein dewis o fwyd? Beth yw'r tueddiadau cyfredol o ran bwyd?

Mae sefydliadau a manwerthwyr prosesu a chynhyrchu bwyd, arlwyyo a lletygarwch wedi gweld newidiadau sylweddol o ran dewis a disgwyladau defnyddwyr ac mae hyn wedi arwain at ymateb yn barhaus i alwadau a newidiadau yn yr amgylchedd. Mae gwyddonwyr bwyd, economegwyr cartref, ymchwilwyr i'r farchnad a dadansoddwyr iechyd cyhoeddus yn enghreifftiau o'r rheini a fyddai'n ymwneud â chynnal ymchwil i faterion cyfredol ar ran eu cyflogwyr a gwneuthurwyr polisïau cyhoeddus.

Drwy gydol yr uned hon cewch gyfle i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r blaen yn **Uned 1: Diwallu Anghenion Maethol Grwpiau Penodol** ac **Uned 2: Sicrhau bod Bwyd yn Ddiogel i'w Fwyta** a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar y dewis o fwyd ac argaeledd bwyd ar hyn o bryd. Drwy broiectau unigol a grŵp, byddwch yn dysgu am y modd y mae rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant bwyd yn ymateb i newidiadau mewn arferion bwyd. Bydd y broiectau yn eich helpu hefyd i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gynllunio a chynnal project ymchwil unigol yn effeithiol.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
<b>DD1</b> gallu cynllunio ymchwil i fater cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth	MPA1.1 cynnig <b>ymchwil i fater cyfredol</b> mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth	<p><b>Cynnig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwmpas ac ystod yr ymchwil</li> <li>• Rhesymeg ar gyfer ymchwil</li> <li>• Gosod rhagdybiaeth</li> <li>• Pennu nodau project</li> </ul> <p><b>Mater cyfredol e.e.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn arwyddocaol i'r sector</li> <li>• Yn arwyddocaol i'r defnyddiwr</li> <li>• Cynaliadwyedd</li> <li>• Economaidd</li> <li>• Technolegol</li> <li>• Cysylltiedig â'r cyfryngau</li> <li>• Cymdeithasol</li> <li>• Moesegol</li> </ul>	Bydd angen i ddysgwyr ddatblygu sgiliau i nodi cynnig o ran ymchwil yn glir. <i>Dylai dysgwyr fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt o'r blaen i bennu cynigion o ran ymchwil.</i>
	<b>MPA1.2 cynllunio</b> ymchwil i fater cyfredol	<p><b>Cynllunio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Graddfeydd amser</li> <li>• Trefnu gweithgareddau</li> <li>• Methodoleg</li> <li>• Cyflwyniad</li> <li>• Cerrig milltir</li> <li>• Allbynnau a chanlyniadau</li> <li>• Cyflwyniad</li> </ul>	Bydd angen i ddysgwyr ddatblygu sgiliau cynllunio sy'n gysylltiedig â chynigion o ran ymchwil. <i>Dylai dysgwyr fanteisio ar y sgiliau cynllunio a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt o'r blaen.</i>
	<b>MPA1.3 cyfiawnhau'r</b> cynllun ar gyfer ymchwil	<p><b>Cyfiawnhau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut mae'r cynllun yn sicrhau allbynnau</li> <li>• Sut mae'r cynllun yn sicrhau canlyniadau</li> <li>• Cyswllt â phrojectau blaenorol</li> </ul>	Bydd angen i ddysgwyr ddysgu sut i gyfiawnhau drwy ddefnyddio iaith a thystiolaeth ddarbwyllol i ategu cynigion. <i>Daw'r dystiolaeth o'u hymwneud â phrojectau ymchwil eraill. Gallai hyn ddeillio o'r uned hon, neu weithgareddau dysgu a gyflawnir mewn unedau eraill.</i>

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<i>Bydd y dysgwr yn:</i>	<i>Gall y dysgwr:</i>		
<b>DD2</b> Gallu rheoli project	<b>MPA2.1 monitro</b> cynnydd project	<b>Monitro</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflawni cerrig milltir</li> <li>• Cynnig</li> <li>• Deilliannau</li> <li>• Allbynnau</li> <li>• Graddfeydd amser</li> <li>• Dogfennu gweithgareddau</li> </ul>	<p>Bydd angen i ddysgwyr ddefnyddio technegau a sgiliau i fonitro cynnydd projectau a gwneud addasiadau i gynlluniau fel y bo angen.</p> <p><i>Bydd dysgwyr yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt mewn unedau eraill sy'n gysylltiedig â monitro cynnydd.</i></p>
	<b>MPA2.2 gwerthuso</b> project ymchwil	<b>Gwerthuso</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun</li> <li>• Deilliannau</li> <li>• Allbynnau</li> <li>• Proses</li> </ul>	<p>Bydd angen i ddysgwyr ddysgu am dechnegau a ddefnyddir i werthuso projectau a'u cymhwyso at agweddau gwahanol ar bwnc, fel y nodir yn y cynnwys.</p> <p><i>Bydd dysgwyr yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt mewn unedau eraill i werthuso'r project.</i></p>



Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<b>Bydd y dysgwr yn:</b>	<b>Gall y dysgwr:</b>		
<b>DD3</b> gallu ymchwilio i faterion cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth	<b>MPA3.1</b> disgrifio <b>methodoleg ymchwil</b>	<b>Methodoleg ymchwil</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sylfaenol</li> <li>Eilaidd</li> <li>Sampl</li> <li>Ffynonellau</li> </ul>	Bydd angen i ddysgwyr wybod am fethodolegau ymchwil fel y gallant ddisgrifio'r dull i'w fabwysiadu wrth gynnal projectau ymchwil.
	<b>MPA3.2</b> dylunio <b>adnoddau ymchwil sylfaenol</b>	<b>Dylunio dulliau ymchwil sylfaenol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Holiaduron</li> <li>Cwestiynau cyfweld</li> <li>Cwestiynau grwpiau ffochs</li> <li>Cofnodi dogfennaeth</li> </ul>	Bydd angen i ddysgwyr wybod y ffyrdd gwahanol o gynnal ymchwil sylfaenol a deall y materion sy'n gysylltiedig â dulliau gwahanol. Byddant yn cymhwyso eu dealltwriaeth at ddylunio adnoddau ymchwil a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth.
	<b>MPA3.3</b> dadansoddi data	<b>Dadansoddi Data</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Coladu data</li> <li>Arddangos/cyflwyno data</li> <li>Nodi tueddiadau, patrymau a chydberthnasau achosol</li> <li>Defnyddio meddalwedd TGCh</li> <li>Cysylltu syniadau</li> </ul>	Bydd angen i ddysgwyr arddangos y gallant gymhwyso technegau mathemategol ac ystadegol wrth ddadansoddi a chyflwyno data a gasglwyd. Rhaid iddynt lunio canfyddiadau o waith ymchwil a'u cyflwyno mewn ffyrdd gwahanol sy'n addas i'r gynulleidfa.
	<b>MPA3.4</b> gwerthuso ansawdd y wybodaeth	<b>Gwerthuso gwybodaeth</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dilysrwydd</li> <li>Dibynadwyedd</li> <li>Tuedd</li> <li>Ffaith yn erbyn barn</li> <li>Amgylchiadau</li> <li>Cyfrededd</li> <li>Cywirdeb</li> <li>Cyfyngiadau</li> </ul>	Bydd angen i ddysgwyr ddatblygu sgiliau a thechnegau fel y gallant werthuso gwybodaeth drwy gydol y broses o gynnal project ymchwil. Dylid rhoi ystyriaeth i'r holl gynnwys a restrir drwy gydol y profiad dysgu.

Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu	Cynnwys	Enghreifftio
<b>Bydd y dysgwr yn:</b>	<b>Gall y dysgwr:</b>		
<p><b>DD4</b> deall materion cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth</p>	<p><b>MPA4.1 dadansoddi</b> materion cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth</p>	<p><b>Dadansoddi</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llunio casgliadau ar sail data</li> <li>• Cyberthynas â materion eraill yr ymchwilir iddynt</li> <li>• Gwneud argymhellion cyfiawn lle y bo'n briodol</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr ddatblygu digon o ddealltwriaeth o faterion i lunio casgliadau ar sail tystiolaeth o waith ymchwil sy'n amlygu ac yn dangos dealltwriaeth o'r mater yr ymchwilir iddo.</p> <p>Dylai dysgwyr fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt mewn unedau eraill wrth ddehongli canfyddiadau a chyflwyno casgliadau.</p>
	<p><b>MPA4.2</b> gwerthuso sut mae <b>rhanddeiliaid allweddol</b> yn ymateb i faterion cyfredol</p>	<p><b>Rhanddeiliaid allweddol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithgynhyrchwyr bwyd</li> <li>• Sefydliadau prosesu bwyd</li> <li>• Sefydliadau Lletygarwch ac Arlwyo</li> <li>• Manwerthwyr</li> <li>• Gweithredwyr logisteg</li> <li>• Y sector gwirfoddol</li> <li>• Y cyfryngau</li> <li>• Adrannau'r Llywodraeth</li> <li>• Defnyddwyr</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr nodi rhanddeiliaid allweddol sy'n berthnasol i'r materion yr ymchwilir iddynt. Dylent feithrin dealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau rhanddeiliaid allweddol er mwyn llunio barn resymedig ac iddi sail gadarn ynghylch eu hymateb i faterion.</p> <p>Bydd dysgwyr yn manteisio ar eu dealltwriaeth o rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau rhanddeiliaid allweddol drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt o'r blaen.</p>

Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
DD1 Gallu cynllunio ymchwil i fater cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth	<b>MPA1.1</b> Cynnig ymchwil i fater cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth	Mae'r cynnig yn ymwneud â mater dilys ar gyfer ymchwil, yn cynnwys gofynion allweddol, y mae gan rai ohonynt fanylion.	Mae'r cynnig yn ymwneud â mater dilys ar gyfer ymchwil ac yn cynnwys yr holl ofynion, y mae gan rai ohonynt fanylion.	Mae'r cynnig yn ymwneud â mater dilys ar gyfer ymchwil ac yn cynnwys yr holl ofynion wedi'u nodi'n fanwl.
		1	2	3
	<b>MPA1.2</b> Cynllunio ymchwil i fater cyfredol	Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r gofynion, y mae rhai ohonynt wedi'u nodi'n fanwl. Mae'r cynnwys a'r dilyniannu yn rhesymol ar y cyfan ac yn cynnwys rhywfaint o ddilysrwydd o ran cyflawni nodau'r project.	Mae'r cynllun yn gynhwysfawr, gyda rhai manylion. Mae'r cynnwys a'r dilyniannu yn rhesymol ac yn ddilys ar y cyfan fel ffordd o gyflawni nodau'r project.	Mae'r cynllun yn gynhwysfawr ac yn fanwl. Byddai'r cynnwys a'r dilyniannu yn cyflawni nodau'r project yn ddilys.
	1	2	3	
<b>MPA1.3</b> Cyfiawnhau'r cynllun ar gyfer ymchwil	Mae amlinelliad i'r cynllun gyda rhywfaint o ymdrech i gyfiawnhau.	Mae rhai agweddau ar y cynllun wedi'u cyfiawnhau gyda rhesymu clir.	Mae'r cynllun wedi'i gyfiawnhau gyda rhesymu clir a manwl.	
	1	2	3	

Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
DD2 Gallu rheoli project	MPA2.1 Monitro cynnydd project	Caiff cynnydd project ei fonitro ar gamau allweddol drwy gydol y broses.  1	Caiff cynnydd project ei fonitro drwy gydol y broses.  2	
	AC2.2 Gwerthuso project ymchwil	Gall gwerthuso project ymchwil fod yn oddrychol ar y cyfan gyda chasgliadau'n cael eu llunio o dystiolaeth gyfyngedig. Mae'r gwerthuso'n mynd i'r afael â rhai agweddau ar yr ymchwil ond ceir hepgoriadau. Gall y gwerthuso fod yn ddisgrifiadol ar y cyfan.  1	Wrth werthuso'r project ymchwil lluniwyd y rhan fwyaf o'r casgliadau o'r dystiolaeth Mae'r gwerthuso yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r agweddau ar yr ymchwil. Mae'r gwerthuso wedi'i resymu'n dda ar y cyfan.  2	Mae'r gwaith o werthuso project ymchwil yn gynhwysfawr a gwrthrychol gyda chasgliadau wedi'u rhesymu'n dda yn cael eu llunio o dystiolaeth o ffynonellau.  3

Deiliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
DD3 Gallu ymchwilio i faterion cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth	<b>MPA3.1</b> Disgrifio methodoleg ymchwil	Amlinellir y fethodoleg ymchwil. 1	Disgrifir y fethodoleg ymchwil gyda rhai manylion. 2	Disgrifir y fethodoleg ymchwil yn fanwl. 3
	<b>MPA3.2</b> Dylunio adnoddau ymchwil sylfaenol	Dylunnir amrywiaeth o adnoddau ymchwil sylfaenol. Efallai bod rhai problemau gyda'r dyluniadau o ran cael gafael ar y data a/neu'r wybodaeth sy'n ofynnol 1	Dylunnir amrywiaeth o adnoddau ymchwil sylfaenol. Mae'r dyluniadau yn addas at y pwrpas ar y cyfan ond gyda rhai mân broblemau mewn un neu fwy o'r adnoddau o ran cael gafael ar y wybodaeth sy'n ofynnol. 2	Dylunnir amrywiaeth o adnoddau ymchwil sylfaenol priodol. Mae'r dyluniadau yn addas at y pwrpas. 3
	<b>MPA3.3</b> Dadansoddi data	Yn dadansoddi data wrth goladu a chyflwyno canfyddiadau. Tynnir sylw at rai tueddiadau, patrymau a chydberthnasau perthnasol. 1	Yn dadansoddi data wrth goladu a chyflwyno amrywiaeth o ganfyddiadau. Tynnir sylw at dueddiadau, patrymau a chydberthnasau perthnasol. 2	Yn dadansoddi data wrth goladu a chyflwyno amrywiaeth o ganfyddiadau. Eglurir tueddiadau, patrymau a chydberthnasau perthnasol. 3
	<b>MPA3.4</b> Gwerthuso ansawdd y wybodaeth	Yn archwilio ystod gyfyngedig o ffynonellau gwybodaeth. Yn gwerthuso ansawdd y wybodaeth yn erbyn meini prawf cyfyngedig gan roi rhywfaint o resymau ar gyfer casgliadau. 1	Yn archwilio ystod o ffynonellau gwybodaeth. Yn gwerthuso ansawdd y wybodaeth yn erbyn amrywiaeth o feini prawf gan ddangos casgliadau wedi'u rhesymu'n dda ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o'r casgliadau yn berthnasol i'r project ymchwil 2	Yn archwilio ystod o ffynonellau gwybodaeth. Yn gwerthuso ansawdd y wybodaeth yn erbyn amrywiaeth o feini prawf priodol gan ddangos casgliadau wedi'u rhesymu'n dda. Mae'r casgliadau yn berthnasol i'r project ymchwil. 3

Deilliant Dysgu	Meini prawf asesu	Bandiau perfformiad		
		Band Marciau 1	Band Marciau 2	Band Marciau 3
<b>DD4</b> Deall materion cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth	<b>MPA4.1</b> Dadansoddi materion cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth	Yn dadansoddi materion cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth. Tynnir sylw at agweddau allweddol. Caiff rhai casgliadau eu llunio o dystiolaeth. Ceir cyfeiriad cyfyngedig at faterion eraill yr ymchwiliwyd iddynt. Ceir tystiolaeth o ddefnyddio rhywfaint o'r hyn a ddysgwyd o'r blaen.	Yn dadansoddi materion cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth. Tynnir sylw at agweddau allweddol o safbwyntiau gwahanol a chaiff y rhan fwyaf o'r casgliadau eu llunio o dystiolaeth. Gwneir rhywfaint o ddefnyddio faterion eraill yr ymchwiliwyd iddynt. Ceir tystiolaeth glir o fanteisio ar rywfaint o'r hyn a ddysgwyd o'r blaen.	Yn dadansoddi materion cyfredol mewn perthynas â gwyddor bwyd a maeth. Tynnir sylw at agweddau allweddol o safbwyntiau gwahanol a chaiff y rhan fwyaf o'r casgliadau eu llunio o dystiolaeth a materion eraill yr ymchwiliwyd iddynt. Ceir tystiolaeth glir o fanteisio ar amrywiaeth o'r hyn a ddysgwyd o'r blaen.
		1	2	3
	<b>MPA4.2</b> Gwerthuso sut mae rhanddeiliaid allweddol yn ymateb i faterion cyfredol	Yn gwerthuso sut mae ystod gyfyngedig o randdeiliaid allweddol yn ymateb i fater cyfredol. Mae'r gwerthuso yn oddrychol ar y cyfan gyda defnydd cyfyngedig o dystiolaeth. Mae'r casgliadau yn syml ar y cyfan.	Yn gwerthuso sut mae ystod o randdeiliaid allweddol yn ymateb i faterion cyfredol. Mae'r gwerthuso yn gwneud rhywfaint o ddefnyddio perthnasol o dystiolaeth. Mae casgliadau'n dangos rhywfaint o resymu.	
		1	2	

## Asesu

### Gofynion ar gyfer canolfannau

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol. Mae'n rhaid cynnal pob asesiad o dan amodau asesu dan reolaeth a phennwyd rheolaethau ar gyfer pob cam o'r broses asesu: pennu tasgau, cyflawni tasgau a marcio tasgau.

### Pennu tasgau

Er mwyn helpu canolfannau i asesu'r uned hon, mae CBAC wedi darparu aseiniad enghreifftiol ynghyd â chanllawiau a meini prawf sy'n gysylltiedig â'i ddefnyddio. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys tasgau sy'n gofyn am dull gweithredu cymhwysol a chyfannol. Cynllunnir yr aseiniadau enghreifftiol fel y gellir eu defnyddio fel ag y maent neu fel y gall canolfannau eu haddasu i gyfateb i anghenion y sector lleol a defnyddio'r adnoddau lleol sydd ar gael i'r ganolfan. Mae'r aseiniad enghreifftiol yn cynnwys gwybodaeth am ba agweddau ar yr aseiniad y gellir eu haddasu.

### Pennu tasgau

Fel rhan o'r broses o gyflawni tasgau, pennir rheolaethau ar gyfer yr agweddau allweddol, sef amser, adnoddau, goruchwyliaeth a chydweithio.

- Caiff yr amser y dylid ei gymryd ei ddynodi yn yr aseiniad enghreifftiol
- Rhaid darparu adnoddau sy'n rhoi cyfleoedd teg a llawn i'r dysgwyr weld y meini prawf ar gyfer marcio ac sy'n briodol o ran yr asesiad a gofynion yr uned. Nodir manylion rheolaethau penodol yn yr asesiad enghreifftiol
- Rhoddir cyfarwyddiadau ar y gofynion mewn perthynas â goruchwyliaeth uniongyrchol yn yr aseiniad enghreifftiol
- Rhoddir canllawiau ar gydweithio, a lle y'i caniateir, â'r aseiniad enghreifftiol.

O fewn aseiniadau enghreifftiol CBAC, mae'n bosibl y gwneir awgrymiadau o ran amseru rhai tasgau unigol o fewn y cyfnod asesu cyffredinol. Pwrpas hyn yw rhoi canllawiau ychwanegol i ganolfannau er mwyn helpu i reoli'r dasg asesu.

### Marcio tasgau

Rhaid i'r ganolfan farcio tystiolaeth asesu dysgwr yn erbyn y bandiau perfformiad ar gyfer pob maen prawf asesu. Mae'r bandiau perfformiad yn disgrifio i ba raddau y mae'r dysgwr wedi bodloni'r maen prawf asesu.

### Canllawiau Cyflwyno

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cydnabod bod y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau maent yn eu meithrin yn berthnasol yn alwedigaethol. Mae sawl ffordd y gellir cyflawni hyn:

- Trefnu ymweliadau â gweithleoedd fel archfarchnadoedd i drafod safbwynt cyflogeion ar faterion defnyddwyr.
- Trefnu sgysiau gan siaradwyr gwadd, er enghraifft darlithydd prifysgol sy'n gyfrifol am oruchwyllo traethodau hir.
- Cynnal project ymchwil a bennir gan gyflogwr fel elusen yn cefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

I ddilyn, ceir enghreifftiau o ddulliau cyflwyno y gellid eu defnyddio i wella gallu'r dysgwyr i ddysgu a deall y materion cyfredol mewn gwyddor bwyd a maeth.

## Enghraifft 1

Gallai dysgwyr weithio mewn grwpiau i gynnal project ymchwil ar ran grŵp cymunedol sy'n ceisio sefydlu cwmni cydweithredol sy'n rhannu cynnyrch o randiroedd neu erddi. Gallai dysgwyr ymchwilio i enghreifftiau eraill a ble y gellid cynnig cymorth. Gallent hefyd gynnal ymchwil sylfaenol i'r posibiladau ar gyfer y project. Byddai dysgwyr yn cyflwyno eu canfyddiadau i gynrychiolwyr y grŵp cymunedol.

## Enghraifft 2

Gallai dysgwyr ymchwilio i'r posibilrwydd y gallai ysgol gynradd leol gyflwyno gwersi coginio yn y cwricwlwm. Gallai hyn gynnwys ymchwil i'r cwricwlwm cyfredol a chynlluniau ar gyfer newidiadau mewn polisi addysgol yn ogystal ag ymchwil sylfaenol dan oruchwyliaeth i lefel y diddordeb gan ddisgyblion a'u rhieni a'u gwarcheidwaid. Gallai dysgwyr gyflwyno eu syniadau i'r disgyblion a'r ysgol neu i gynrychiolwyr yr awdurdod lleol.

## Enghraifft 3

Gallai dysgwyr gynnal project ymchwil i fwyta'n iach ar gymhorthdal incwm. Gallent ymchwilio i lefel y cymorth ariannol a ddarperir i grwpiau gwahanol fel teuluoedd un rhiant, unigolion diwaith mewn llety ar rent, parau oedrannus yn eu cartrefi eu hunain. Gallent hefyd gynnal ymchwil sylfaenol i'w hoff fwyd, ei argaeledd a'i gost. Yna gallai dysgwyr ddatblygu rhaglen ddeietegol iach a rhad ar gyfer un grŵp penodol.

## Creu cysylltiadau

Mae'r sefydliadau y gellid cysylltu â hwy i ddarparu help yn cynnwys y canlynol:

- Archfarchnadoedd a mathau eraill o fanwerthwyr bwyd
- Elusennau sy'n cefnogi defnyddwyr
- Adrannau'r llywodraeth sy'n pennu polisi neu'n darparu gwybodaeth
- Sefydliadau prosesu bwyd
- Newyddiadurwyr bwyd
- Asiantaethau hysbysebu.

## Adnoddau

### Gwefannau

Bized: [www.bized.co.uk](http://www.bized.co.uk)

Grŵp Cydweithredol: [www.co-operative.coop/food/ethics](http://www.co-operative.coop/food/ethics)

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: [www.defra.gov.uk](http://www.defra.gov.uk)

Yr Adran Iechyd: [www.dh.gov.uk](http://www.dh.gov.uk)

Asiantaeth yr Amgylchedd: [www.environment-agency.gov.uk](http://www.environment-agency.gov.uk)

Y Sefydliad Masnach Deg: [www.fairtrade.org.uk](http://www.fairtrade.org.uk)

Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig: [www.fao.org](http://www.fao.org)

Ffederasiwn Bwyd a Diod: [www.fdf.org.uk](http://www.fdf.org.uk)



Asiantaeth Safonau Bwyd: <http://www.food.gov.uk>

Food Vision: [www.foodvision.gov.uk](http://www.foodvision.gov.uk)

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk)

Jamie Oliver: [www.jamieshomecookingskills.com](http://www.jamieshomecookingskills.com)

Marks and Spencer: [www.marksandspencer.com](http://www.marksandspencer.com)

Microsoft: [www.microsoft.com/education](http://www.microsoft.com/education)

Y GIG: <http://www.nhs.uk/livewell>

Rhwydweithiau Gweithgaredd Corfforol a Maeth Cymru:  
[www.physicalactivityandnutritionwales.org.uk](http://www.physicalactivityandnutritionwales.org.uk)

Sainsbury's: [www.sainsburys.co.uk](http://www.sainsburys.co.uk)

Soil Association: [www.soilassociation.org](http://www.soilassociation.org)

Sustainable Food: [www.sustainablefood.com](http://www.sustainablefood.com)

Tesco: [www.tesco.com](http://www.tesco.com)

Rhaglen Bwyd y Byd y Cenhedloedd Unedig [www.wfp.org](http://www.wfp.org)

Vegetarian Society: [www.veg.soc.org.uk](http://www.veg.soc.org.uk)

## 6 GWEITHDREFNAU COFRESTRU

Bydd Diploma Lefel 3 CBAC mewn Gwyddor Bwyd a Maeth ar gael i'w hardystio o fis Mehefin 2017.

Wedi hynny, bydd pob cymhwyster ar gael i'w ardystio bob mis Mehefin.

Mae'n rhaid bod canolfannau sy'n bwriadu cynnig y cymhwyster hwn wedi'u cofrestru fel un o ganolfannau achrededig CBAC. I gael manylion am y broses gofrestru ac achredu, dylai canolfannau gysylltu â CBAC.

Rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer cyfres mis Mehefin erbyn 21 Chwefror fan bellaf.

**Unwaith yn unig** y gall ymgeiswyr ailsefyll unedau a asesir yn fewnol. Gallant **ailsefyll unedau a asesir yn allanol ddwywaith**. Y radd orau fydd yn cael ei defnyddio wrth agregu. Os bydd ymgeisydd am ailsefyll uned fewnol fwy nag unwaith neu uned allanol fwy na dwywaith, ni ellir wrth agregu'r radd defnyddio unrhyw ganlyniadau o unedau a safwyd yn flaenorol a rhaid sefyll yr holl unedau yn y cymhwyster eto.

### **Cofrestru ar gyfer unedau**

Rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer unedau unigol drwy gyflwyno'r codau uned perthnasol fel y'u dynodir ar bob uned sy'n rhan o'r fanyleb.

### **Cofrestru ar gyfer cymwysterau**

Caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster wrth wneud cais agregu (cyfnewid). Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig: rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

## 7 SAFONI ALLANOL

Sicrheir bod arferion a phenderfyniadau asesu pob canolfan yn gyson drwy safoni sampl o waith yn allanol.

Bydd pob canolfan yn gallu cysylltu â chymedrolwr ymgynghorol. Bydd y safonwr ymgynghorol ar gael i drafod gofynion asesu â chanolfannau.

Ar gyfer pob cyfres y cofrestrir dysgwyr ar ei chyfer, bydd canolfannau yn cyflwyno sampl, yn ôl y fformiwla isod.

<i>Cyfanswm yr ymgeiswyr</i>	<i>Gwaith i'w gyflwyno (Mae'r rhifau yn ymwneud â threfn yr wyddor)</i>
1 – 10	Pawb
11 - 19	Yr ymgeisydd cyntaf a phob yn ail ymgeisydd ar ôl hynny (1, 3, 5, 7 ac ati) <b>ynghyd â'r</b> ffolder a gafodd y sgôr isaf* a ffolderi ychwanegol fel y bo angen (gan adlewyrchu'r ystod o farciau) i greu cyfanswm o 10 ar gyfer y sampl
20 - 45	yr ymgeisydd cyntaf a phob pumed ymgeisydd ar ôl hynny (1, 6, 11, 16 ac ati) <b>ynghyd â'r</b> ffolder a gafodd y sgôr isaf* a ffolderi ychwanegol fel y bo angen (gan adlewyrchu'r ystod o farciau) i greu cyfanswm o 10 ar gyfer y sampl
46 - 99	Yr ymgeisydd cyntaf a phob yn unfed ar ddeg ar ôl hynny (1, 12, 23, 34 ac ati) <b>ynghyd â'r</b> ffolder a gafodd y sgôr isaf* a ffolderi ychwanegol fel y bo angen (gan adlewyrchu'r ystod o farciau) i greu cyfanswm o 10 ar gyfer y sampl

\* Mae'r sgôr yn seiliedig ar y pwyntiau mae'r dysgwyr yn eu cael am bob un o'r unedau sy'n cael eu cyflwyno i'w safoni.

Dylai canolfannau sicrhau eu bod yn cadw portffolio pob dysgwr nad yw'n cael ei anfon at y safonwr am ddeufis ar ôl y dyddiad cau ar gyfer anfon samplau i'w safoni. Gall CBAC ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau anfon pob portffolio i'w safoni a rhaid i ganolfannau allu cydymffurfio ar unwaith â chais o'r fath.

Dylai canolfannau gyflwyno sampl ar gyfer **pob uned** sy'n cynnwys y canlynol:

- briff yr aseiniad dan reolaeth a ddefnyddiwyd i bennu'r gweithgaredd asesu
- taflen gweithgareddau'r asesiad dan reolaeth wedi'i chwblhau a'i llofnodi gan yr aseswr er mwyn cadarnhau bod y rheolaethau ar gyfer yr uned, gan gynnwys dilysrwydd y dystiolaeth, wedi cael eu rhoi ar waith
- taflenni cofnodi marciau wedi'u cwblhau sy'n amlinellu pa fandiau perfformiad y mae'r dystiolaeth yn eu cyflawni
- yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwyr wrth gwblhau'r asesiad dan reolaeth, wedi'i hanodi'n briodol gan yr aseswr

Bydd safonwyr yn adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynir er mwyn sicrhau safonau cyson. Caiff dystiolaeth ei barnu yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Pennu tasgau - a bennwyd tasgau o fewn y rheolaethau a bennwyd gan CBAC yn yr aseiniad enghreifftiol?
- Cyflawni tasgau - a oes dystiolaeth bod tasgau wedi cael eu cyflawni o dan yr amodau rheolaeth a nodir yn yr aseiniad enghreifftiol?
- Bandiau perfformiad - a yw'r dystiolaeth yn ategu dyfarniad yr aseswr am ddysgwyr yn erbyn safonau cenedlaethol?
- Anodi - a yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwyr wedi'i hanodi'n briodol?
- Dilysu - a yw'n glir mai dystiolaeth a gynhyrchwyd yn ddilys gan y dysgwr yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd?
- Safoni - a oes dystiolaeth o weithdrefnau safoni/sicrhau ansawdd mewnol effeithiol yn y ganolfan?

### **Amserlen**

Rhaid cyflwyno samplau o waith i'w safoni'n allanol, a dychwelyd y taflenni marcio cysylltiedig i CBAC, erbyn 15 Mai ar gyfer cyfres mis Mehefin. Bydd angen i ganolfannau sicrhau y pennir dyddiadau cyflwyno mewnol yn ddigon cynnar er mwyn caniatáu ar gyfer dilysu, asesu a safoni.

### **Adborth**

Canlyniad y gwaith safoni fydd naill ai derbyn neu newid penderfyniadau asesu canolfan. Darperir canllawiau hefyd ar y camau gweithredu y bydd angen eu cymryd cyn ailgyflwyno unedau penodedig fel rhan o gyfres safoni ddilynol.

Rhoddir adborth drwy adroddiad safonwr canolfan ar gyfer pob ardystiad, gan gwmpasu'r unedau a gyflwynwyd gan y ganolfan, a bydd ar gael drwy wefan ddiogel CBAC. Bydd yr adroddiad yn ymdrin â'r meini prawf y cyfeiriwyd atynt uchod.

Darperir adroddiad Uwch Safonwr ar gyfer pob cyfres.

## 8 DYFARNU A CHYFLWYNO ADRODDIADAU

Gwneir dyfarniadau a chyflwynir adroddiadau ar ganlyniadau Diploma Lefel 3 CBAC mewn Gwyddor Bwyd a Maeth ym mis Awst bob blwyddyn.

Bydd **Tystysgrif Cymhwyster**, a gyflwynir yn ddiweddarach, yn cadarnhau'r canlynol

- Teitl
- Lefel 1
- Gradd y cymhwyster (Llwyddiant Lefel 3, Teilyngdod Lefel 3, Rhagoriaeth Lefel 3, Rhagoriaeth Lefel 3\*)
- Teitlau'r unedau a gyfrannodd at y cymhwyster

## 9 MYNEDIAD AC YSTYRIAETH ARBENNIG

Yn aml, fel rhan o gymwysterau ar y lefel hon, caiff amrywiaeth eang o gymwyseddau eu hasesu. Mae hyn yn digwydd gan mai cymwysterau galwedigaethol ydynt a'u bod yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer amrywiaeth eang o alwedigaethau a chyrtsiau lefel uwch.

Cynlluniwyd y fanyleb hon er mwyn cynnig mynediad teg i bawb ac er mwyn lleihau'r angen i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr â gofynion penodol. Disgwylir, fel arfer, y bydd canolfannau yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer galluoedd, diddordebau ac anghenion dysgwyr unigol drwy:

(a) y dewis o unedau a chymwysterau sydd ar gael

(b) y potensial i bersonoli asesiadau dan reolaeth.

Os bydd unrhyw ymholiadau ynghylch defnyddio'r hyblygrwydd hwn sy'n rhan gynhenid o'r fanyleb er mwyn diwallu anghenion dysgwyr, neu ynghylch defnyddio addasiadau rhesymol, dylai canolfannau gysylltu â CBAC.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'r asesiadau. Am y rheswm hwn, prin iawn fydd yr ymgeiswyr a gaiff eu hatal yn llwyr rhag cymryd rhan yn unrhyw ran o'r asesiad. Ceir gwybodaeth am addasiadau rhesymol yn nogfen y Cydgyngor Cymwysterau '*Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*'. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cydgyngor Cymwysterau ([www.jcq.org.uk](http://www.jcq.org.uk)).

## **10 GWASANAETHAU AR ÔL Y CANLYNIADAU**

Os bydd canolfan yn awyddus i herio canlyniad y broses safoni a/neu'r broses arholi, rhaid i bennaeth y ganolfan wneud hynny'n ffurfiol drwy hysbysu CBAC o fewn 21 diwrnod i gyhoeddi'r canlyniadau.

Caiff y sampl o waith a gyflwynwyd i'w safoni ei hadolygu gan gymedrolwr/arholwr nad oedd yn rhan o'r broses wreiddiol, a chaiff y ganolfan ei hysbysu o'r canlyniad.

Os na fydd y ganolfan yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad, gellir cyflwyno apêl i CBAC.

# 11 CODAU DOSBARTHU

Pennir cod dosbarthu cenedlaethol (cod disgowntio) ar gyfer pob manyleb yn dynodi pa faes pwnc y mae'n gysylltiedig ag ef.

Dylid hysbysu canolfannau, pan fydd dysgwyr yn ymgymryd â dau gymhwyster gyda'r un cod dosbarthu, y bydd dangosyddion perfformiad ar gyfer y ganolfan yn dangos mai dim ond un o'r ddau gymhwyster a gyflawnwyd ganddynt. Gall yr un peth fod yn wir os bydd dysgwyr yn astudio dwy fanyleb â gwahanol godau dosbarthu ond lle mae cynnwys y ddwy fanyleb yn gorgyffwrdd yn sylweddol. Mae'r system ddisgowntio yn effeithio ar y broses o gyfrifo mesurau perfformiad ar gyfer ysgol yn y tablau perfformiad. Nid yw'n newid y dyfarniadau y mae dysgwr unigol wedi'u cyflawni nac yn cyfyngu ar nifer y cymwysterau y gall astudio ar eu cyfer.

Os bydd gan ddysgwyr unrhyw amheuan am eu cyfuniadau pwnc, dylent drafod hynny gyda'r sefydliad y maent yn dymuno mynd iddo cyn dechrau ar eu rhaglenni.

Gellir cael gwybodaeth am godau disgownt o'r Adran Addysg ([www.education.gov.uk](http://www.education.gov.uk)) a/neu [www.gov.wales](http://www.gov.wales))



## **Atodiad 1 - Strwythur yr Unedau**

### **Teitl yr uned**

Mae teitl yr uned yn crynhoi cynnwys yr uned mewn ffordd gryno.

### **Oriau dysgu dan arweiniad (ODA)**

Mae oriau dysgu dan arweiniad yn cyfeirio'n benodol at yr oriau hynny lle y bydd tiwtor yn bresennol ac yn cyfrannu at y broses ddysgu. Mewn rhai sefydliadau, cyfeirir at yr elfen hon fel 'amser cyswllt'. Mae'r amser hwn yn cynnwys darlithoedd, cyfnodau ymarferol o dan oruchwyliaeth ac amser astudio o dan oruchwyliaeth.

### **Nod a phwrpas**

Mae'r nod a'r pwrpas yn darparu crynodeb cryno a chliir o'r uned. Mae hefyd yn nodi'r pwrpas cymhwysol ar gyfer yr uned.

### **Cyflwyniad i'r Uned**

Caiff hwn ei ysgrifennu i'r dysgwr ac mae'n rhoi crynodeb o gynnwys yr uned. Mae'n pennu cyd-destun galwedigaethol yr uned ac yn tynnu sylw at bwrpas yr hyn a ddysgir yn yr uned. Os bydd gan unedau ofynion i ddysgwyr fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt o'r blaen, nodir hyn yn yr adran hon.

### **Deilliannau dysgu**

Mae deilliannau dysgu yn datgan beth y dylai'r dysgwr ei wybod, ei ddeall neu allu ei wneud o ganlyniad i gwblhau'r dysgu yn yr uned.

### **Meini Prawf Asesu**

Mae'r meini prawf asesu yn dynodi'r safon y disgwylir i ddysgwr ei chyrraedd er mwyn dangos bod deilliannau dysgu'r uned honno wedi'u cyflawni.

### **Cynnwys yr uned**

Mae'r cynnwys dangosol a'r enghreifftio yn diffinio ehangder a dyfnder y dysgu ar gyfer maen prawf asesu. Disgwylir i'r holl gynnwys dangosol gael ei gyflwyno yn ystod y rhaglen ddysgu. Nid yw'n ofynnol asesu pob agwedd ar y cynnwys wrth asesu'r uned. Disgwylir i ddysgwyr gymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a feithrinwyd drwy'r dysgu at fanylion penodol y cyd-destun asesu.

O fewn rhai deilliannau dysgu, rhoddir cynnwys yr uned fel enghraifft (e.e.). Dim ond er mwyn rhoi enghraifft o'r cynnwys y gwneir hyn, a gall dysgwyr ddefnyddio unrhyw enghreifftiau sy'n cael eu haddysgu iddynt yn eu hasesiadau crynodol.

Ar gyfer rhai meini prawf asesu, ni ddynodir unrhyw gynnwys. Gall canolfannau bennu'r cynnwys i'w ddysgu yn seiliedig ar amgylchiadau lleol.

Mae cynnwys yr uned yn cynnwys 'ymhelaethu'. Bwrriedir i'r rhan hon roi cymorth ychwanegol i'r rheini sy'n cyflwyno'r cymhwyster drwy nodi graddau'r dyfnder a/neu'r ehangder sydd eu hangen. Mae'r cynnwys a nodir mewn *llythrennau italig* yn dynodi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio dysgu blaenorol.

## **Bandiau Perfformiad**

Mae bandiau perfformiad yn nodi hyd at dair lefel o berfformiad ar gyfer pob maen prawf. **Nid** yw bandiau perfformiad yn ychwanegu gofynion at y meini prawf asesu, ond maent yn disgwyl lefel uwch o berfformiad. Mae'r aseswr yn cyfateb ansawdd profiad y dysgwr â'r disgrifiad priodol o'r perfformiad. Mae gan bob disgrifiad o berfformiad rif a hwn yw'r marc sy'n cael ei ddyfarnu ar gyfer y maen prawf asesu. Adran 4: Mae graddio yn rhoi mwy o wybodaeth am sut i ddefnyddio bandiau perfformiad.

## **Asesu**

Caiff unedau Diploma Lefel 3 CBAC mewn Gwyddor Bwyd a Maeth eu hasesu drwy asesuadau mewnol dan reolaeth neu asesuadau allanol. Mae'r adran hon o'r uned yn crynhoi'r gofynion asesu.

## **Canllawiau cyflwyno**

Rhydd y canllawiau hyn syniadau i'r tiwtor ynghylch sut i gyflwyno'r unedau mewn lleoliad galwedigaethol sy'n gyson ag athroniaeth y cymhwyster a bwriad yr uned. Rhoddir o leiaf dri chyd-destun enghreifftiol ar gyfer pob uned. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi syniadau am leoliadau galwedigaethol ar gyfer yr uned ac yn awgrymu cysylltiadau posibl y gellid eu gwneud wrth gyflwyno'r dysgu.

## **Adnoddau**

Mae hyn yn nodi adnoddau defnyddiol er mwyn helpu i gyflwyno'r dysgu. Mae llawer o'r adnoddau a restrir yn addas i'w defnyddio gyda'r dysgwyr.